Cyngor Sir Caerfyrddin

# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Gan fod pocedi o lefelau uchel o amddifadedd eisoes yn lleol, pwysau o achos costau byw cynyddol, rhenti marchnad uchel, a her fawr wrth gynllunio i leihau'r defnydd gormodol o lety dros dro, **mae maint yr her yn sylweddol.**

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Diben y Strategaeth hon | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Gweledigaeth ac Egwyddorion | 12 |
| Y Cyd-destun Cenedlaethol | 22 |
| Asesu Anghenion | 24 |
| Blaenoriaethau Strategol | 36 |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 40 |
| Asesiadau Effaith | 46 |
| Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth | 48 |
| Atodiad 1 | 50 |
| Atodiad A: Cynllun Gweithredu | 53 |



# Rhagair

## Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-2026.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr ymdrechion a'r cynnydd presennol sy'n cael eu gwneud nid yn unig gan yr Awdurdod Lleol, ond hefyd ei randdeiliaid a'i bartneriaid allweddol, i edrych ymlaen a datblygu cartrefi a datrysiadau i ateb y galw presennol ac yn y dyfodol ac atal digartrefedd yn y dyfodol.

Mae cydnabyddiaeth glir hefyd o'r ymagwedd 'cynnwys pawb a neb heb help' ac ystyriaeth ofalus i sicrhau bod ein hatebion yn diwallu anghenion ein cymunedau, sy'n aml yn amlochrog ac yn amrywiol eu natur. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r ystod o lety sydd ar gael er mwyn rhoi dyfodol mwy addawol a chynaliadwy i bobl, a lle na ellir atal digartrefedd, sicrhau ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Rydym yn croesawu'r ymagwedd ailgartrefu cyflym tuag at ddigartrefedd a'r canllawiau a'r cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'n cefnogi i gyflymu llawer o'n rhaglenni datblygu tai cymdeithasol ni a'n partneriaid, a fydd yn cynyddu'r gwaith o greu tai fforddiadwy, carbon isel o ansawdd uchel ar gyflymder ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion ein cymuned yn well wrth symud ymlaen.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y sector rhentu preifat wrth geisio atebion i leihau digartrefedd, felly edrychaf ymlaen at gryfhau ein perthynas â'r sector hwn yn y dyfodol wrth geisio atebion tai cynaliadwy i'n trigolion.

Er bod hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer atebion arloesol trwy atal yn well ac ymatebion cyflym i ddigartrefedd, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau. Gan fod pocedi o lefelau uchel o amddifadedd eisoes yn lleol, pwysau o achos costau byw cynyddol, rhenti marchnad uchel, a her fawr wrth gynllunio i leihau'r defnydd gormodol o lety dros dro, mae maint yr her yn sylweddol, ond gyda'n partneriaid rydym wedi ymrwymo i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin.

**Felly rwy'n croesawu ac yn canmol y strategaeth hon a'r modd y mae'n rhoi i ni fframwaith strategol ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd yn Sir Gaerfyrddin.**

**Cllr Linda Davies Evans**
Aelod Cabinet dros Gartref,
Cyngor Sir Caerfyrddin

# Diben y Strategaeth hon

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein hymagwedd at barhau i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed – y rheiny sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a'r rheiny sydd angen cymorth i gynnal eu tenantiaethau a byw fel rhan o'u cymunedau.

**Ers pandemig Covid-19 rydym wedi cynyddu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i sicrhau bod pawb sydd angen lloches yn cael hynny ac yn gallu derbyn cymorth.**

Mae angen i ni wneud llawer rhagor i atal digartrefedd a gwneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog nad yw'n digwydd yr eilwaith. Bydd y Strategaeth hon yn llywio datblygiad y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn y dyfodol, a fydd yn nodi ein bwriad i ddarparu'r ystod o lety a'r niferoedd sydd eu hangen i ateb y galw ac yn nodi sut cânt eu dyrannu.

Yn gynwysedig yn y ddogfen hon mae ein blaenoriaethau a blaenoriaethau ein hasiantaethau partner ar gyfer atal digartrefedd, rhyddhad digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai dros y pedair blynedd nesaf (2022-26). Mae'n diweddaru'r blaenoriaethau blaenorol a gafodd eu cynnwys yn hen strategaeth ddigartrefedd y Cyngor, a gafodd ei hadolygu yn 2018, a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22. Datblygwyd y blaenoriaethau drwy gyfrwng ymarfer asesu angen cynhwysfawr a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yn y Cyngor a darparwyr gwasanaethau cymorth. Darperir rhagor o wybodaeth am y broses asesu anghenion a'r canfyddiadau yn y strategaeth hon.



Mae'r Grant Cymorth Tai yn elfen allweddol o'r strategaeth gyffredinol. Rhaglen grantiau ymyrraeth gynnar yw hon i gefnogi gweithgareddau sy'n atal pobl rhag digartrefedd, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Bwriad y grant yw ategu, cynorthwyo ac ychwanegu at y gwasanaethau statudol, a thrwy hynny sicrhau bod y cynnig lleol cyffredinol yn helpu pobl i gael y cartrefi iawn, gyda'r cymorth iawn i lwyddo. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Dylai'r gwasanaethau a gefnogir drwy'r Grant Cymorth Tai ganolbwyntio ar yr unigolyn a rhoi sylw i'r problemau niferus mae pobl agored i niwed sy'n ddigartref, neu'n debygol o fod yn ddigartref, yn aml yn eu hwynebu (er enghraifft dyled, diweithdra, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl). Yn y pen draw, dylai'r gwasanaethau leihau'r angen am ymyrraeth gostus yn y meysydd hyn gan wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae cynllunio strategol yn allweddol er mwyn sicrhau cyswllt rhwng y Grant Cymorth Tai a dyletswyddau statudol Sir Gaerfyrddin i atal a lliniaru digartrefedd, a sicrhau bod y gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn cael eu comisiynu'n effeithiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn cael eu cefnogi'n briodol. Hefyd bydd hyn yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'r grant. Yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru y mae un strategaeth sy'n cynnwys dulliau atal a chymorth digartrefedd Sir Gaerfyrddin ac sy'n cwmpasu'r ddyletswydd digartrefedd statudol a ariennir drwy'r setliad refeniw a'r gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rhyngddibyniaeth sydd rhwng yr elfennau hyn ac yn ehangach gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n darparu cymorth i bobl agored i niwed. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rhyngddibyniaeth sydd rhwng yr elfennau hyn ac yn ehangach gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n darparu cymorth i bobl agored i niwed.

# Cyflwyniad

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r 3ydd awdurdod lleol mwyaf yn ôl daearyddiaeth yng Nghymru ac mae'n rhyw 2,395 cilomedr sgwâr. Mae'n ffinio â Cheredigion i'r gogledd; Powys, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i'r dwyrain; Môr Hafren i'r de; a Sir Benfro i'r gorllewin.

Y tair tref fwyaf yw Llanelli, Rhydaman, a Chaerfyrddin (y dref sirol a'r ganolfan weinyddol). Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin ymhlith y mwyaf gwasgaredig yng Nghymru, sef 78 o bobl yn unig ar gyfer pob cilometr sgwâr, sy'n byw ar draws sir amrywiol o gymunedau trefol a gwledig. Mae Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman yn gartref i 25% o'r boblogaeth. Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn tyfu 373 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2021 a 2040, ac mae'n debygol y bydd twf cysylltiedig yn y defnydd o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, bydd cyfran y bobl 80+ oed yn cynyddu mwy na 50% mewn amser tebyg, a fydd yn debygol o roi mwy o bwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae amddifadedd yn Sir Gaerfyrddin i'w weld yn bennaf ym mhrif drefi'r awdurdod lleol: Llanelli, Rhydaman, ac i raddau llai, Caerfyrddin. Yn Llanelli mae'r lefel uchaf o amddifadedd yn yr Awdurdod gan fod pedair ardal yn ne'r dref a Llwynhendy 3 i'r dwyrain o'r dref, wedi'u rhestru ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r unig ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig.

Mae lefel uchel o amddifadedd yn rhai o'r trefi a phentrefi gwledig, fel Pen-bre, Porth Tywyn, Llandybïe, Cydweli a Thrimsaran. Mae gan y llefydd hyn i gyd ardaloedd sydd ymhlith y 10% i 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a gwelir yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn lefelau hynod uchel o amddifadedd o ran incwm, cyflogaeth ac addysg.

Ar y cyfan mae amddifadedd yn isel iawn yng nghanol a gogledd Sir Gaerfyrddin, ac mae llawer o'r ardaloedd yn y rhan hon o'r Sir ymhlith y lleiaf difreintiedig yn y wlad.

**Adlewyrchir hyn yn 54% o ardaloedd bach Sir Gaerfyrddin ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig, sy'n uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol o 42% a'r cyfartaledd cenedlaethol.**

Rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn tyfu

**373**

o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2021 a 2040



Cyrhaeddodd anghenion llety dros dro uchafbwynt ar ddiwedd Haf 2020, pryd roedd bron i

**120**

o aelwydydd mewn llety dros dro, ac mae hyn yn parhau'n uchel o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig.



## Digartrefedd a Covid-19

Tuedd glir, sy'n cael ei hadlewyrchu ledled Cymru, yw'r gyfran gynyddol o bobl sengl sy'n cyflwyno'n ddigartref. O ganlyniad i bandemig Covid-19, daeth nifer sylweddol o bobl newydd yn gymwys i gael eu cartrefu gan y Cyngor o fis Mawrth 2020. Nid yw'r sefyllfa wedi newid ar hyn o bryd sy'n golygu bod pawb sy'n cyflwyno'n ddigartref mewn 'angen blaenoriaethol'. Cyfeirir at hyn hefyd fel y polisi 'Pawb i Mewn'.

**Gwnaethom ymateb yn eithriadol o dda i ddulliau 'pawb i mewn' ac yn ddiweddar 'neb heb help' Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ein bod yn cyflawni'n llawn y cyfrifoldebau ehangach sydd arnom yn effeithiol.**

Golygai proffil unigolion cymwys fod hefyd galw digynsail am unedau person sengl. Yn anochel, arweiniodd hyn at nifer cynyddol o bobl mewn llety dros dro, ac oherwydd heriau o ran eu symud ymlaen a nifer cynyddol o bobl y mae arnom ddyletswydd dai lawn iddynt, nid oes cyflenwad digonol wedi bod i ateb y galw.

Mae'r newid hwn mewn polisi wedi cynyddu nifer y bobl sydd angen llety dros dro a llety brys. Fel arfer, roeddem yn darparu ar gyfer 70 o aelwydydd ar unrhyw un adeg, ond cynyddodd hyn yn gyflym i 140 o aelwydydd mewn llety dros dro gyda dros gant o'r rhain yn bobl sengl. Gwaethygwyd y sefyllfa yn sgil cynnydd yn nifer y bobl sengl oedd wedi gadael y carchar ac wedi bod yn 'soffa-syrffio' (aros gyda ffrindiau neu yng nghartrefi pobl eraill'), gan nad oeddent yn gallu gwneud hynny mwyach ac roedd angen tai arnynt.

**Er gwaethaf yr heriau rydym yn eu hwynebu, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi:**

- na fydd unrhyw ildio o ran 'neb heb help';
- bod trefniadau cyfreithiol trosiannol yn cael eu drafftio yr ymgynghorwyd arnynt;
- bod cyllid tair blynedd ar gael ar gyfer Arweinwyr y Prosiect Ailgartrefu Cyflym; a
- bod iteriad cyntaf y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Medi 2022) yn ofynnol bellach i ni weld beth yw ein sefyllfa bresennol a beth yw'r camau mae angen eu cymryd i gyflawni'r cynllun dros y 5 mlynedd nesaf.

Fel awdurdod rydym hefyd wedi gwneud rhai newidiadau cyflym ac wedi ailstrwythuro gwasanaethau i'n galluogi i symud o'r cam adweithiol i'r cam atal, a dod â phrif elfennau'r rhaglen atal at ei gilydd o dan un ymbarél. Bydd hyn yn sicrhau bod y newid i Ailgartrefu Cyflym yn cael ei wneud yn effeithiol ac mai ymyrraeth gynnar ac atal yw ein prif flaenoriaeth yn y dyfodol.

**Y prif resymau pam mae pobl yn cysylltu â ni mewn perthynas â materion tai/digartrefedd yn y lle cyntaf yw:**

- Rhieni ddim yn barod i'w lletya;
- Teulu neu ffrindiau ddim yn barod i'w lletya e.e. soffa-syrffio;
- Hysbysiad i adael gan landlord yn y sector rhentu preifat;
- Perthynas â phartneriaid yn chwalu; a
- Cam-drin Domestig;

Ein dyletswydd gyntaf yw ystyried sut rydym yn helpu pobl i beidio â dod yn ddigartref yn y lle cyntaf ac i osgoi'r angen i gael eu hailgartrefu. Gan fod cynnydd yn y galw mae angen i'n gwasanaethau presennol ddatblygu i sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar atal, ac i sicrhau nad yw pobl mewn sefyllfa o argyfwng o ran tai.

Cyrhaeddodd yr angen am lety dros dro uchafbwynt tua diwedd haf 2020, ac mae'n parhau i fod yn uchel o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig, gyda bron i 120 o aelwydydd mewn llety dros dro. Mae hwn yn gynnydd o 60% yng nghyfanswm yr aelwydydd sydd mewn llety dros dro (pobl sengl yn bennaf) o gymharu â chyn y pandemig, sy'n awgrymu bod yr angen yn dal i fod yn uchel (a bydd yn parhau'n uchel).

**Ein prif atebion yn y tymor hir ar gyfer datrys materion tai/ digartrefedd yw:**

- naill ai ailgartrefu gan y Cyngor neu'r Cymdeithasau Tai;
- ailgartrefu yn y sector rhentu preifat; a
- chefnogi pobl i aros yn eu cartrefi gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

Rhaid asesu ymgeisydd o dan sawl adran o'r Ddeddf Tai, sy'n gymhleth ar gyfer ymgeiswyr a gweithwyr achos. Mae'r cynnydd yn y galw wedi dod ar adeg pan fu her gyflenwi hefyd yn y farchnad dai, gyda llai o lety fforddiadwy ar gael yn y sector preifat a llai o bobl rydym wedi gallu helpu i gael mynediad i lety iddynt yn y sector rhentu preifat drwy ein cymorth yn 2021.

## Adsefydlu Wcráin

**O 10 Awst 2022, mae cyfanswm yr Wcreiniaid sy'n cyrraedd Sir Gaerfyrddin trwy'r ddau lwybr - Cartrefi i Wcráin (nawdd unigol H4U) a'r Cynllun Uwch-noddwr (SS Forge Inn Sanclêr) fel a ganlyn:**

- 82 o Aelwydydd o Wcráin. 216 o unigolion 130 o oedolion - 86 o blant.
- 9 o aelwydydd o Wcráin yn y Forge Inn, Sanclêr.
- Ar hyn o bryd mae 64 o aelwydydd o Wcráin yn aros gyda lletywyr / noddwyr.
- 8 o aelwydydd o Wcráin mewn llety dros dro.
- 82 sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn Lletywr/Noddwr wedi cadarnhau bod ganddyn nhw ddiddordeb o hyd ac eisiau symud ymlaen i'r cam DBS. Fodd bynnag, bydd y ganran yn gostwng yn y cam DBS ac archwilio eiddo cyn paru ag unrhyw deulu.
- Gall 52 o unigolion (20 o ystafelloedd) hefyd gael eu lletya yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a gellid eu hailgartrefu unrhyw le yng Nghymru.

| Maint aelwydydd pobl o Wcráin | Nifer yr aelwydydd |
|---|---|
| Aelwydydd sydd wedi cyrraedd | 73 |
| Pobl sengl | 13 |
| 2 berson ar yr aelwyd | 25 |
| 3 pherson ar yr aelwyd | 19 |
| 4 person ar yr aelwyd | 11 |
| 5 person ar yr aelwyd | 2 |
| 6 pherson ar yr aelwyd | 3 |

Mae'r aelwydydd uchod wedi'u gwasgaru ledled y sir, ac mae gan lawer ohonynt blant mewn ysgolion lleol. Gallai hyn ddylanwadu ar ble maent am ymgartrefu yn y sir yn y dyfodol.

**Pe bai Llywodraeth Cymru yn gweithredu rhyw fath o system gwota o'u canolfannau Croeso, yna byddem yn rhagweld y byddai angen cartrefi ar gannoedd o aelwydydd ychwanegol.**

## Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches a phobl sydd methu mynd ar ofyn arian cyhoeddus.

Yn ogystal â gwasgfeydd sefyllfa'r Wcráin, mae'r Swyddfa Gartref wedi ein cynghori yn ddiweddar y gallwn ddisgwyl derbyn 141 o Geiswyr Lloches yr amcangyfrifir y bydd 70% ohonynt angen llety person sengl erbyn mis Rhagfyr 2023.

**Mae'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn heriol ac rydym yn cydnabod bod angen i ni fod yn barod am gynnydd yn nifer y bobl y bydd angen help arnynt o ran tai, gydag anghenion cynyddol gymhleth, a bydd y strategaeth hon yn ein helpu i ymateb i'r twf hwn yn y galw.**



# Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae ein gweledigaeth a'n hegwyddorion ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd yn seiliedig ar fframwaith ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027, sef Datblygu Sir Gaerfyrddin Gyda'n Gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais.



Mae ein gweledigaeth ar gyfer y sir yn nodi:

**'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'**

# Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Maent yn ein helpu ni i wneud y penderfyniad cywir ac i lywio'r modd rydym yn gweithio gyda'n gilydd.

## Un Tîm

Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwella pethau

## Gwrando

Gwrando ar ein cymunedau, ein partneriaid, a'n cydweithwyr i wella

## Cwsmeriaid yn Gyntaf

Gweithio i wella bywydau pobl yn ein cymuned

## Rhagori

Cyflawni hyd eithaf ein gallu a chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau

## Cywirdeb

Bod yn deg, yn onest a cheisio gwneud y peth iawn bob amser, yn ddiogel

## Cymryd Cyfrifoldeb

Cymryd perchnogaeth dros ein camau gweithredu a bod yn atebol

**Mae ein 4 amcan llesiant** yn darparu'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i gyflawni ein strategaeth ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd, a chymorth cysylltiedig â thai.

| Mae'r amcanion hyn wedi'u pennu dan bedwar pennawd | | | |
|---|---|---|---|
| **Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda):**<br><br>Rhoi dechrau cryf mewn bywyd i bobl ifanc a fydd yn cyfrannu at atal digartrefedd. | **Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda):**<br><br>Bydd pobl sy'n ddigartref yn cael cymorth i fwyhau eu cyfleoedd tai a dod o hyd i gyflogaeth ystyrlon a boddhaus.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi wrth iddynt heneiddio. | **Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus):**<br><br>Byddwn yn talu sylw i anghenion pobl ag anghenion cymhleth ac yn sicrhau nad ydym yn diwallu anghenion y genhedlaeth gyfredol ar draul cenedlaethau'r dyfodol. | **Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor gwydn ac effeithlon (Ein Cyngor):**<br><br>Byddwn yn sicrhau bod gwaith partneriaeth lleol a rhanbarthol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor. |



Yn gryno, ein gweledigaeth ar gyfer digartrefedd yw:

## ‘bod digartrefedd yn cael ei atal, neu lle bo’n digwydd, ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw’n digwydd eto’

| Dechrau’n Dda | Byw a Heneiddio’n Dda | Cymunedau Ffyniannus | Ein Cyngor |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau rydym yn gobeithio eu cyflawni** | | | |
| 1. Gwella cyfleoedd i bawb o ran sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol i’w huwchsgilio ar gyfer cyflogaeth.<br><br>**2.** Lleihau’r anghydraddol debau a wynebir gan blant o gefndir difreintiedig a allai effeithio ar eu cyfleoedd yn hwyrach mewn bywyd.<br><br>**3.** Rhoi cymorth i deuluoedd sy’n wynebu anawsterau o ran darparu cartrefi sefydlog a diogel i’w plant. | 1. Help a chymorth i liniaru effeithiau’r argyfwng ‘costau byw’ a thlodi yn y sir.<br><br>**2.** Lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ddod ag ef i ben.<br><br>**3.** Argaeledd tai fforddiadwy o safon dda sy’n effeithlon o ran ynni yn y sir.<br><br>**4.** Cydnabod a cheisio cyfyngu ar y rhwystrau anghymesur a wynebir gan grwpiau sydd ar y cyrion o ran cael mynediad i wasanaethau a chymorth sy’n eu galluogi i fyw a heneiddio’n dda.<br><br>**5.** Gwella gwasanaethau ataliol i fodloni gofynion poblogaeth sy’n heneiddio.<br><br>**6.** Gwella cyfleoedd i bawb o ran sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol i’w huwchsgilio ar gyfer cyflogaeth. | **1.** Pobl yn teimlo wedi’u grymuso i arwain bywydau egnïol ac iach drwy fynediad i wasanaethau a darpariaeth addas i’r diben. | **1.** Gwneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i drawsnewid ymhellach ein gwasanaethau i fod yn brosesau gwasanaeth clyfrach, effeithlon ac i roi profiad gwell i gwsmeriaid.<br><br>**2.** Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau’n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.<br><br>**3.** Cynyddu ymgysylltu â’r cyhoedd trwy ymgysylltu, cyfranogi ac ymgynghori. |



## Strategaeth Gorfforaethol

Mae ein Cynllun Adfer Economaidd a Chyflawni yn nodi amcanion a chamau clir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a fydd yn cefnogi adferiad economi'r sir o effeithiau cymdeithasol ac economaidd pandemig Covid-19 a Brexit.

> **Mae ein Cynllun yn pennu'r blaenoriaethau byr dymor a'r camau i'w cymryd yn syth a fydd yn diogelu swyddi, yn diogelu busnesau ac yn adeiladu cymunedau cryf, cynaliadwy a gwydn.**

**Mae'r camau yn y cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi:**

- **Busnesau** – diogelu busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y sectorau sylfaenol a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, gan gynnwys yr economi werdd.
- **Pobl** – diogelu swyddi, ymateb i'r cynnydd disgwyliedig mewn diweithdra, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd ar gael, a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd â sgiliau gwell.
- **Lleoedd** – sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd drwy addasu a buddsoddi yn seilwaith ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig.



**Bydd cynyddu'r cyflenwad tai a diwallu'r angen am dai yn helpu i gefnogi rhai o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun adfer economaidd, gan gynnwys:**

- **Bod angen adeiladu cymunedau cryfion** – by drwy greu dros 2,000 o dai byddwn yn helpu i sicrhau ein bod yn darparu'r tai cywir yn y mannau cywir. Bydd hyn yn cynnwys darparu tai fforddiadwy i bobl ifanc a phobl oedran gweithio mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan eu helpu i aros yn y sir, cynyddu nifer yr ymwelwyr yn ein prif drefi, a diogelu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant mewn ardaloedd gwledig;

- **Cyfnewid a diogelu swyddi** – mae'r buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yn fwy na £300 miliwn. Bydd hyn yn cefnogi busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi, yn creu ac yn diogelu swyddi, ac yn helpu i greu swyddi newydd yn lle'r 3 mil a gollwyd eisoes.

- **Tyfu'r economi werdd** – bydd datblygu cartrefi ynni-effeithlon newydd, gyda'r dechnoleg adnewyddadwy ddiweddaraf a chyflawni ein hymrwymiadau a amlinellwyd yn y Strategaeth Datgarboneiddio Tai a Gwres Fforddiadwy yn helpu i gefnogi targedau Carbon Sero Net y Cyngor a'r economi gylchol. Bydd y rhaglenni adeiladau newydd ac ôl-osod hyn yn cefnogi datblygiad yr economi werdd a'r diwydiant adeiladu, ac yn meithrin sgiliau'n lleol.

**Mae cynyddu'r cyflenwad tai yn cael ei gydnabod yn y cynllun fel prif ysgogydd adfer economaidd a thwf.**

## Cynllun Llesiant

Mae ein Cynllun Llesiant yn defnyddio gwybodaeth o'r Asesiad o Lesiant Lleol, a oedd yn nodi nifer o heriau y mae unigolion yn eu hwynebu drwy gydol eu bywydau, gan gynnwys dirywio iechyd corfforol a meddyliol, chwalu rhwydweithiau cymdeithasol a pherthnasoedd, newid amgylchiadau economaidd a chael eu dal mewn cylch o dlodi. Gall y goblygiadau tymor hir ar gyfer llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau fod yn anferth pan na fyddant yn cael cymorth na chefnogaeth ar yr adeg iawn, yn enwedig ar ddechrau eu bywyd. Y nod allweddol yn y Cynllun Llesiant sy'n effeithio ar y Strategaeth hon yw: 'sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt'

## Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y tymor byr, canolig a hir:

### Tymor byr:
### Newid y Model Darparu

Nod y cynllun yw trawsnewid darpariaeth gwasanaethau i alluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i gymryd mesurau ataliol cynnar er budd eu llesiant eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, sefydlu un pwynt cyswllt i gael gafael ar wybodaeth, a datblygu rhaglen hyfforddi gyffredin ar gyfer staff ar draws sefydliadau yn seiliedig ar ddull Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif (MECC).

### Tymor Canolig:
### Rhannu Gwybodaeth

Adeiladu ar y camau tymor byr, sefydlu gweithdrefnau a systemau i barhau i gefnogi newid yn y gwasanaeth ac i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd camau atal personol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dull i sefydliadau gydlynu a rhannu gwybodaeth allweddol i wella capasiti a gallu partneriaid gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi unigolion i gymryd camau ataliol cynnar.

### Tymor Hir:
### Uchelgeisiau

Bydd cydweithio gwell yn y gwasanaethau'n sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fydd ei angen arnynt. Gallai hyn fod ar ffurf ymatebion arloesol yn lleol a ledled y sir, megis gwasanaethau symudol neu wasanaethau sydd wedi'u lleoli yn yr un lle.

Y prif nod yn y Cynllun Llesiant sy'n effeithio ar y Strategaeth hon yw:

'Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt'.

## Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru

Mae Asesiad Poblogaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn darparu dadansoddiad strategol lefel uchel o anghenion gofal a chymorth dinasyddion ac yn cefnogi anghenion gofalwyr ar draws Gorllewin Cymru.

**Argymhellion cyffredinol yr Asesiad Poblogaeth yw:**

### Llais a rheolaeth

Sicrhau bod cynnal urddas pobl a diogelu unigolion rhag esgeulustod a chamdriniaeth wrth wraidd yr holl wasanaethau. Sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg i'r sawl sydd eu hangen.

Sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yn ymwneud mewn modd ystyrlon â phob cam o'r gwaith cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Mae angen i hyn ddigwydd ar lefel strategol, gan ymgysylltu â dinasyddion ynghylch ffurf y gofal a'r cymorth yn y dyfodol, a'r disgwyliadau ar unigolion i hyrwyddo eu llesiant eu hunain, ac, yn weithredol, sicrhau bod asesu a chynllunio gofal yn caniatáu i bobl fynegi canlyniadau personol a dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y cymorth sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau hynny.

### Atal ac ymyrraeth gynnar

Adeiladu ar y sylfeini sylweddol sydd yn eu lle ar draws y meysydd gwasanaeth a gwmpesir yn yr asesiad, i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i atal neu ohirio'r angen am ofal a chymorth parhaus a bod yr ethos atal yn ategu pob lefel a math o ofal. Yn benodol, dylid cymryd cyfleoedd i ddatblygu fframweithiau ataliol cyson ar draws y gwasanaethau, sy'n defnyddio arferion da presennol fel sail, yn hwyluso pontio rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion, ac yn lleihau'r angen am ofal a chymorth parhaus. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn natblygiad gwasanaethau ataliol yn y gymuned, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, a darpariaeth a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, ac felly adeiladu gwytnwch cymunedau a thrwy hynny, y bobl sydd angen gofal a chymorth.

### Llesiant

Blaenoriaethu cymorth i ofalwyr a theuluoedd, gan eu galluogi nhw a'r rhai maent yn gofalu amdanynt i fyw bywydau bodlon ac annibynnol cyhyd ag y bo modd. Gwella gwasanaethau pontio ymhellach i hwyluso cynllunio effeithiol ar draws y gwasanaethau a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i dderbyn gofal a chymorth priodol wrth dyfu'n oedolion ifanc.

### Cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio

Creu amgylchedd sy'n caniatáu newid radical ac yn annog arloesedd yn hytrach na cheisio gwneud mwy o'r un peth gyda llai. Datblygu modelau darparu cyson ar draws meysydd gwasanaeth a'r rhanbarth, ar sail gweledigaeth strategol a rennir ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, gan sicrhau safonau cyffredin i bob un o drigolion Gorllewin Cymru.

## Ymagwedd at ddigartrefedd ar draws y rhanbarth

Mae gweithio rhanbarthol yn rhan bwysig o wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos i ffurfio cyd-derminws Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSCG) gyda Byrddau Iechyd Hywel Dda a Phowys. Nid oes rôl lywodraethu gan RHSCG yn y Grant Cymorth Tai, yn hytrach eu rôl yw darparu fforwm ar gyfer cydweithio. Nid yw awdurdodau unigol yn atebol i RHSCGs.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrwng i ddatblygu cydweithio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai, a dyma sut mae'r RHSCG yn meithrin perthynas agos fel y gellir comisiynu, dylunio neu ffocysu ar wasanaethau ar cyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddibenion a rennir yn meysydd Tai â chymorth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ei rôl, ei strwythurau, a'i ymagwedd at ddiogelu canlyniadau gwell drwy gydweithio Golyga hyn ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd esblygol a deinamig, a bydd angen datblygu'r ffyrdd o weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol dros amser.



# Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw ffocws cyson ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghyd-destun ehangach polisi Llywodraeth y DU megis cyni cyllidol a diwygio lles.

Mae effaith meysydd polisi eraill nad ydynt wedi'u datganoli, megis plismona a carchardai, ar ddigartrefedd hefyd yn cael ei monitro ac ymatebir i hynny mewn modd priodol. Dan Ran 2 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal a lliniaru digartrefedd, sydd wedi arwain at gryfhau trefniadau partneriaeth lleol.

Atal digartrefedd yw'r brif egwyddor o hyd, ond lle nad yw hynny'n bosibl, sicrhau ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Mae ymrwymiad o'r newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd fel eu bod yn canolbwyntio ar atal ac ar ailgartrefu cyflym. Bydd deall beth sy'n gweithio, beth sy'n addawol, a beth nad yw'n effeithiol yn hanfodol i Lywodraeth Cymru o ran cyflawni ei hamcanion polisi.

Mae mwy o fanylion yn Atodiad 1 am sut mae'r cyd-destun cenedlaethol wedi datblygu ers i Ddeddf Tai (Cymru) ddod i fodolaeth.

Mae ymagwedd amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at ddigartrefedd yn gofyn am gyfraniad gan wasanaethau eraill, ac alinio â nhw. Mae'r meysydd gwasanaeth hyn eu hunain yn amodol ar ddeddfwriaeth a pholisi penodol, sydd oll yn fras yn seiliedig ar egwyddorion atal/ymyrraeth gynnar, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hyrwyddo annibyniaeth a darparu atebion cynaliadwy. Mae deddfwriaeth berthnasol a pholisi perthnasol wedi'u crynhoi isod.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ceisio cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae angen i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd a cheisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

### Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwyslais ar ymagweddau atal a phartneriaeth at weithio gyda VWDASV.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwella’r canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, a chydlynu a gwaith partneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda’r bwriad o wella llesiant pobl.

Mae’r Ddeddf yn cydnabod y cynnydd yn nifer y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. Er mwyn helpu i ateb a lleihau’r galw, mae’n amlinellu’r angen am fwy o ymyrraeth gynnar gynhwysfawr a gwasanaethau cymorth dwys.

### Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau: 2019 tan 2022 (Cymru)

Mae’r cynllun hwn yn pennu blaenoriaethau allweddol a gweithredol Llywodraeth Cymru ac wedi cael ei adolygu i ystyried lle mae angen ei ddiweddaru yn sgil COVID-19.

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae’r Ddeddf hon yn cwmpasu’r DU yn ei chyfanrwydd ac yn diogelu pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd canfyddir bod ganddynt nodwedd warchodedig, neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd o’r fath. Mae gwarchodaeth yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Hefyd, cafodd Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd ei chyflwyno yng Nghymru yn 2020 sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau’r anghydraddoldeb sy’n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Rhaglen Lywodraethu y Dyfodol

Mae’r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu’r ymrwymiadau allweddol i ddeddfu yn unol â’r prif argymhellion yn y dogfennau isod mewn perthynas â’r digartrefedd a’r gofal a ddaw i ran pobl ifanc.

**Yn benodol mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:**

1. Edrych ar y posibilrwydd o ddiwygio’n radical y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal;

2. Diwygio’n sylfaenol y gwasanaethau digartrefedd fel eu bod yn canolbwyntio ar atal, ailgartrefu cyflym;

3. Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal;

4. Gwella cydweithio ar draws y gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol, gan ystyried cyfrifoldebau rhianta corfforaethol

# Asesu Anghenion

## Proses Asesu Anghenion

Mae Asesiad Anghenion wedi cael ei gynnal gan y Cyngor, ac yn deillio ohono mae Datganiad o Angen wedi cael ei lunio sy'n defnyddio canfyddiadau'r Asesiad Anghenion i nodi materion allweddol ar gyfer Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, ein dyletswyddau statudol i atal a lliniaru digartrefedd, ac yng nghyd-destun ein hamcanion strategol ehangach. Mae'r Datganiad o Angen wedi'i grynhoi isod.

## Atal Digartrefedd

Mae'r Gwasanaethau Tai â Chymorth yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, teimlo'n ynysig a sefydliadu. Mae fframwaith cyfreithiol a pholisi Cymru yn ei gwneud yn glir bod ymyrraeth gynnar yn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen ac yn ffordd o osgoi argyfwng, a bod hynny wedyn yn effeithio ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth. Dengys yr Asesiad Anghenion yn glir fod y galw am dai yn drech na'r cyflenwad, er gwaethaf ein hymdrechion gorau i greu opsiynau newydd ar gyfer llety dros dro, llety â chymorth a thai parhaol. Mae hyn yn gwneud rôl atal hyd yn oed yn fwy brys, a'r angen i helpu pobl i gadw eu llety presennol. Mae ein llwyddiant o ran atal digartrefedd wedi cael ei gynnal dros gyfnod Covid, ond mae'n llai na chyfartaledd Cymru a'r rhanbarth. Rydym wedi nodi nifer o gamau allweddol i wella canlyniadau atal cadarnhaol, ac mae peth o'r newid hwn eisoes yn digwydd ar ffurf datblygu'r Gwasanaeth Hwb Tai.

### Sgiliau Annibyniaeth

Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn nodi'r gweithgareddau i sicrhau bod gan bobl y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt. Yn y tymor byr mae hyn yn cynnwys trawsnewid modelau cyflawni i rymuso pobl drwy godi ymwybyddiaeth, sefydlu un pwynt cyswllt i gyrchu gwybodaeth, a datblygu rhaglen hyfforddiant gyffredin ar gyfer staff ar draws sefydliadau Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar sail y dull Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif. Bydd pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn grŵp targed allweddol ar gyfer y dull hwn.

Mae niferoedd sylweddol o bobl ifanc yn cyflwyno'n ddigartref yn Sir Gaerfyrddin ac yn cael eu cyfeirio i lety â chymorth a gwasanaethau cymorth hyblyg. Mae anghenion pobl ifanc yn cynnwys hyfforddiant a datblygu sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae nifer o heriau wrth i bobl ifanc dyfu'n oedolion ac mae angen help ar oedolion ifanc i eiriol drostynt eu hunain.

Mae'r Grant Cymorth Tai a ariennir gan Lety â Chymorth ar gyfer Pobl Ifanc yn darparu fflatiau hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a hyder pobl ifanc i reoli eu llety eu hunain. Gellid gwneud rhagor i ddarparu hyfforddiant i bobl yn y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fyw'n annibynnol.

## Cymorth i atal digartrefedd

Mae ein Tîm Digartrefedd wedi gwneud amryw newidiadau i'r modd maent yn gweithio i ateb y cynnydd yn y galw. Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth hyblyg sy'n cael eu darparu gan gyllid Grant Cymorth Tai sy'n gweithio gyda phobl yn eu llety eu hunain i helpu i ddatblygu sgiliau ac i fynd i'r afael â'r problemau allai arwain at ddigartrefedd. Dylid datblygu ymhellach fodelau cymorth hyblyg sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn llety dros dro ac sy'n eu dilyn i lety sefydlog.

Mae gan y rhan fwyaf o bobl a gefnogir anghenion lluosog a dylai'r cymorth gael ei addasu, ei gynyddu, a'i leihau yn unol â'r angen. Bydd capasiti'r cymorth yn newid ei ffocws o reoli argyfyngau i atal a chymorth amlasiantaeth, ac mewn achosion cymhleth rhaid ei lunio'n benodol i anghenion yr unigolyn.

Cydnabyddir nad oes asesiad anghenion cymorth cyffredinol ar waith i sicrhau y cynhelir asesiad mwy cywir a chyson ar gyfer y sawl sydd angen gwasanaethau cymorth. O ganlyniad, mae'n anodd cynllunio gwasanaethau effeithiol i ffocysu cyngor a chymorth i bobl i'w helpu i symud ymlaen a chynnal eu llety yn y tymor hwy.

## Mae rhannu data yn gwella cynllunio ar gyfer atal.

Mae'n hanfodol deall gweithgarwch partneriaid system megis Iechyd, Gwasanaeth Prawf ac Addysg a chael mynediad i'r wybodaeth sydd ganddynt am anghenion pobl, a hynny er mwyn cynllunio gwasanaethau'n effeithiol a darparu cymorth yn gynnar, cyn i'r sefyllfa fynd yn argyfyngus.

Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn cynnwys datblygu dull i sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gydlynu a rhannu gwybodaeth allweddol, er mwyn gwella'r gallu sydd gan bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi unigolion i gymryd camau ataliol cynnar.

Mae angen adeiladu ar gryfderau o ran cydweithio'n dda â sefydliadau fel y Gwasanaeth Prawf, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG.

> **Mae gan y rhan fwyaf o bobl anghenion lluosog a dylai cymorth gael ei addasu, ei gynyddu, a'i leihau yn ôl yr angen.**

## Llety

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sengl sy'n ddigartref ac y mae angen llety un ystafell wely parhaol arnynt. Mae diffyg nodedig rhwng y galw presennol am eiddo un ystafell wely a'r cyflenwad o dai sydd ar gael. Mae cynllun ar gyfer datblygu dros 2000 yn rhagor o dai o faint a daliadaeth cymysg ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin erbyn 2026. Fodd bynnag, cafodd hwn ei baratoi cyn y pandemig. Mae gan gynlluniau datblygu eraill dargedau uchelgeisiol i adeiladu tai newydd, yn enwedig tai cymdeithasol, ond bydd hyn dros nifer o flynyddoedd a bydd diffyg llety o hyd i ddiwallu'r niferoedd sy'n cysylltu yn dweud eu bod yn ddigartref ers y pandemig.

**Rydym wedi gweld cynnydd yn ddiweddar iawn yn y niferoedd sy'n dod atom yn dweud eu bod yn ddigartref ac mae hyn wedi arwain atom yn rheoli'n adweithiol i ddiwallu'r angen mwyaf dybryd.**

**Achosir y cynnydd diweddar iawn hwn gan nifer o ffactorau allanol sydd wedi achosi cynnydd yn y galw a lleihad yn y cyflenwad o eiddo sy'n cael eu rhentu:**

- Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi creu gofid i rai landlordiaid. Mae'r oedi ar ran Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi o Orffennaf i Ragfyr 2022 wedi creu ansicrwydd i landlordiaid a chynnydd yn nifer yr Hysbysiadau Adran 21 (troi rhywun allan heb fod bai) sy'n cael eu cyflwyno i denantiaid yn y sector rhentu preifat. (Dim ond cyfnod rhybudd dau fis sydd ei angen ar y rhain yn unol â 'Deddf Tai 1988');

- Colli landlordiaid a'u heiddo o'r sector Rhentu Preifat gan arwain at anallu i atal digartrefedd a chyflawni ein dyletswydd drwy'r llwybr hwn;

- Mae'r diffyg cyflenwad wedi cynyddu rhenti marchnad. Mae rhenti marchnad sy'n lleol i Sir Gaerfyrddin bellach dipyn uwch na'r Lwfans Tai Lleol sy'n golygu nad yw'r farchnad yn fforddiadwy i lawer o ymgeiswyr;

- Peth tystiolaeth o landlordiaid yn cyflwyno hysbysiadau Adran 21 fel y gallant gael rhent uwch wrth i brisiau'r farchnad gynyddu; a

- Peth landlordiaid yn manteisio ar y cynnydd diweddar mewn prisiau eiddo a gadael y farchnad rhenti.

Rhagwelir bydd mwy na

**2000**



yn cyflwyno'n ddigartref (adran 62) erbyn diwedd y flwyddyn

---

O'r cartrefi sydd mewn llety dros dro mae angen eiddo un ystafell wely ar

**75%**



---

**Yn ogystal, mae mewnfudo a'r Polisi Ceiswyr Lloches diweddar yn dechrau rhoi pwysau pellach ar y sector tai. Yn benodol:**

- Ymgeiswyr heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF) yn gorfod bod mewn llety dros dro am gyfnod amhenodol dan 'neb heb help' Llywodraeth Cymru tra bod eu cais am aros yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Gartref;

- Galw sylweddol am gartrefi gan 'Asylum & Protection Transformation'; a

- Galw cynyddol a sylweddol am gartrefi gan aelwydydd o Wcráin - rhagwelir bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol.

**Er bod y system wedi ymdopi hyd yn hyn, gyda pheth anhawster, mae arwyddion nawr bod y system dan straen ddifrifol. Mae hyn yn cynnwys:**

- Ganol 2022 rhagwelwyd byddai mwy na 2000 yn cyflwyno'n ddigartref (adran 62) erbyn diwedd y flwyddyn, ac roedd hyn dros 20% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

- O'r rhain a gyflwynodd y mae gennym ddyletswydd lawn iddynt (adran 75) rydym yn cartrefu mwy o aelwydydd nag erioed o'r blaen a rhagamcanwyd bod y niferoedd hynny draean yn uwch yn 2022 na'r lefelau cyn y pandemig sef 440 o aelwydydd. Cyflawnwyd hyn drwy baru uniongyrchol i ofal cymdeithasol ar lefel uwch nag erioed.

- Er gwaethaf y perfformiad gwell hwn, bu i'r nifer sy'n aros am dai yr oedd gennym ddyletswydd lawn amdanynt gynyddu o 180 o aelwydydd yn 2021 i 327 ar ddiwedd Mehefin 2022.

- Mae anghenion llety presennol pobl mewn Dyletswydd Adran 75 yn amlygu effaith diffyg cyflenwad o opsiynau 1 ystafell wely a llety a rennir gyfer pobl sengl a chyplau. Mae angen cartref 1 ystafell wely ar 68% ohonynt.

- O'r aelwydydd sydd mewn llety dros dro, mae angen eiddo un ystafell wely ar 75% ohonynt, ac mae arosiadau mewn llety dros dro bellach yn 18 wythnos ar gyfartaledd.

- Er ein bod wedi cynyddu'r cyflenwad o lety dros dro o lefel cyn-bandemig o 99 i 132 o unedau, nid yw'r eiddo sydd ar gael wedi ein galluogi i gadw fyny â'r galw.

- Mae galw cyson am lety dros dro. Mae'r cynnydd yn y galw gan aelwydydd y cyflwynwyd Hysbysiad Adran 21 iddynt wedi bod yn sylweddol wrth i hysbysiadau gael eu cyflwyno i ystod eang o aelwydydd na fyddent wedi cyflwyno'n ddigartref o'r blaen. Eglurir hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

Mae nifer yr hysbysiadau adran 21 sy’n cael eu cyflwyno ar raddfa nas gwelwyd erioed. Rydym yn gweld Landlordiaid yn cyflwyno 50 y mis o gymharu â rhyw 1 neu 2 y mis cyn Ebrill 2022. Er ein bod yn ateb rhywfaint o’r galw mwyaf brys trwy ddyraniadau uniongyrchol i dai cymdeithasol, rydym yn ei chael hi’n anodd ateb y galw.

O ganlyniad i’r cynnydd mawr hwn yn nifer yr hysbysiadau Adran 21 (troi rhywun allan heb fod bai) sy’n cael eu cyflwyno, rydym wedi gweld demograffeg y bobl sy’n cyflwyno’n ddigartref yn newid. Mae’r garfan hon o bobl yn annhebygol o allu cynnal neu gael llety yn y sector rhentu preifat oherwydd gweithrediad y Ddeddf Rhentu Cartrefi a chost gyffredinol rhentu.

Mae gennym Weithwyr Achos Digartrefedd yn ymchwilio i’r rhesymau pam mae landlordiaid yn cyflwyno Hysbysiadau Adran 21 ac yn ceisio trafod er mwyn i denantiaid allu aros. Fodd bynnag, mae landlordiaid yn bennaf yn nodi eu bod yn dymuno gadael y sector gan nad ydynt bellach eisiau’r cyfrifoldebau a ddaw yn sgil y Ddeddf newydd. Teimlir bod y cyhoeddusrwydd a gafwyd yn sgil yr oedi o ran gweithredu’r ddeddf wedi rhybuddio’r landlordiaid am y newid oedd i ddod ac wedi peri i landlordiaid fynegi eu bod am adael y farchnad rhentu’n gyfan gwbl.

**Mae angen eiddo o’r maint canlynol ar ymgeiswyr Hysbysiad Adran 21 yn unig (cyfrifiadau oedran a chyfansoddiad aelwydydd yn cael eu dadansoddi):**

| | Nifer yr Aelwydydd |
|---|---|
| Angen 1 ystafell wely<br>Plant dan 55 oed | 49 |
| Angen 1-2 ystafell wely<br>Pobl dros 55 oed | 31 |
| Angen 2 ystafell wely | 74 |
| Angen 3 ystafell wely | 34 |
| Angen 3 ystafell wely | 2 |
| Angen 4 ystafell wely | 4 |
| Angen 5 ystafell wely | 1 |
| Cyfanswm | 195 |

**Mae bron i 60% o aelwydydd (115) â Hysbysiad Adran 21 angen llety addas i deulu o rhwng 2-5 ystafell wely. Hefyd mae gennym ddata fesul ardal yn Sir Gaerfyrddin o’r mannau mae aelwydydd yn dymuno ymgartrefu.**

Ar gyfartaledd, mae o leiaf 10 aelwyd yr wythnos yn cyflwyno'n ddigartref neu'n wynebu'r perygl o fod yn ddigartrefedd oherwydd Hysbysiad Adran 21. Roeddem yn rhagweld hyn yn parhau tan gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn Rhagfyr 2022. Felly, roedd 200 o aelwydydd ychwanegol yn debygol o gyflwyno yn y cyfnod hwn. Yn seiliedig ar y rhaniad presennol o bobl sengl/teuluoedd sydd wedi cyflwyno, gallai hyn arwain at 120 o deuluoedd eraill, 50 o aelwydydd sengl, a 30 o aelwydydd sengl dros 55 oed yn cyflwyno oherwydd Hysbysiad Adran 21.

Rydym wedi ymgysylltu'n fanwl â landlordiaid ac mae 60% o landlordiaid yn cyflwyno hysbysiad i'w tenantiaid er mwyn gwerthu'r eiddo a dim ond 9% oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chasglu fel rhan o'r broses ymchwilio i ddigartrefedd. Mae gweithwyr achos wedi ceisio deall yn iawn y rhesymau mae landlordiaid wedi bod yn cyflwyno cynifer o hysbysiadau ac wedi ceisio rhoi opsiynau iddynt barhau i osod yn y sector.

**Rydym wedi:**

- negodi i glirio cyfrifon rhent neu ychwanegu at renti;
- cynnig cyfeirio i gymorth ychwanegol i gynorthwyo pobl â rheoli tenantiaethau; a
- hyrwyddo ein Hasiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol mewnol a buddion y cynllun fel nad oes rhaid iddynt reoli'r denantiaeth o ddydd i ddydd mwyach.

Mae landlordiaid yn gwrthod y cymorth hwn dro ar ôl tro ac yn parhau i ddatgan eu bod am adael y sector. Y rhesymau maent yn eu rhoi dros wrthod Gosod Tai Cymdeithasol yw oherwydd mai dim ond Lwfans Tai Lleol byddent yn ei gael, a gallant werthu eu heiddo a chael mwy o arian fel hynny. Mae hyn hefyd wedi cael ei gadarnhau gan Shelter Cymru yn ein cyfarfodydd misol rheolaidd.

**Mae'n dod yn anodd iawn diwallu'r galw mae hyn yn ei greu drwy'r llety dros dro cyfyngedig sydd ar gael i deuluoedd. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion ac ymholiadau Cynghorwyr sy'n dod i law ynghylch ymgeiswyr y mae Hysbysiadau'n cael eu cyflwyno iddynt.**

Mae'r ymholiadau hyn, mewn llawer o amgylchiadau, yn mynd yn syth i swyddogion sy'n ceisio delio â nifer o heriau. Mae hyn yn creu pwysau ychwanegol ac yn fwyfwy anghynaladwy.

Yn ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, byddwn yn nodi sut y byddwn yn symud tuag at ddarparu modelau mwy cynaliadwy o lety a chymorth sy'n diwallu anghenion pawb sydd ar hyn o bryd mewn darpariaeth frys a'r galw yn y dyfodol.

Y nod fydd sicrhau bod pobl yn cyrraedd tai sefydlog mor gyflym ag sy'n bosibl yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau estynedig.

## Llety dros dro

Mae dwywaith cymaint o bobl wedi cael eu cartrefu gan wasanaethau digartrefedd na'r lefelau cyn y pandemig, ac mae'r mwyafrif llethol o'r rheiny yn bobl sengl. Canfu dadansoddiad ym mis Chwefror 2021, o'r 109 o bobl mewn llety dros dro bod tua hanner y bobl yn addas ar gyfer Ailgartrefu Cyflym gyda lefelau isel o gymorth hyblyg a bod hanner angen model Tai yn Gyntaf o gymorth canolig i uchel.

**Mae cyflenwad annigonol o lety â chymorth i bobl ifanc. Bu i randdeiliaid fynegi nifer o bryderon ynghylch llety dros dro.**

**"Mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn llety dros dro ac yn agored i gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl"**

**"Mae'n anodd cael mynediad i lety, yn enwedig i'r bobl mae'r system yn gyfarwydd iawn â nhw ac sy'n dychwelyd nifer o weithiau. Serch hynny, mae rhai llwyddiannau drwy waith dwys gydag unigolion".**

**"Mae cael y llety iawn yn allweddol, ac mae rhoi llawer o bobl sydd ag anghenion lluosog, cymhleth mewn llety dros dro yn her. Er enghraifft, mae yna rai sy'n ceisio osgoi pwysau cyfoedion gan bobl sy'n gorfod rhannu gyda phobl nad ydyn nhw'n barod eto i reoli eu hiechyd meddwl neu reoli camddefnyddio sylweddau."**

Mae angen adolygu cydbwysedd y ddarpariaeth rhwng llety dros dro, llety â chymorth, Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu'n Gyflym. Mae rhanddeiliaid yn teimlo nad yw Tai yn Gyntaf yn gweithio mor effeithiol yn Sir Gaerfyrddin ag y mae mewn siroedd cyfagos.

**Mae angen i ni weithio gyda'n cydweithwyr a gyda phartneriaid allweddol fel iechyd, gofal cymdeithasol, darparwyr tai a'r sector cyfiawnder troseddol er mwyn datblygu, ariannu a gweithredu cynllun cymorth tai addas i'r diben ar gyfer llety dros dro a llety sefydlog gan gynnwys cyd-ddealltwriaeth o lwybrau cyfeirio a meini prawf cymhwysedd y gwasanaeth.**

## Sector Rhentu Preifat

Mae'r Sector Rhentu Preifat yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd o ran digartrefedd. Mae gan y Cyngor Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol sefydledig gyda phortffolio o 160 o dai (Mawrth 2022) a brofodd i fod yn adnodd hynod werthfawr yn ystod y pandemig.

Mae'r cynnydd mewn gwerth tai yn Sir Gaerfyrddin wedi golygu bod rhai landlordiaid preifat yn gosod rhenti yn sylweddol uwch na'r Lwfans Tai Lleol sy'n golygu nad ydynt bellach ar gael i'r Cyngor ac nid yw tenantiaid yn gallu gwneud iawn am y gwahaniaeth. Mae hon yn broblem benodol yn Nhref Caerfyrddin.

Bydd angen i'r Cyngor esblygu'r Asiantaeth a gwella'r cynnig i landlordiaid a darpar-denantiaid o'r gofrestr i sicrhau ei fod yn parhau i dyfu a diwallu anghenion y gwasanaeth a'u rhanddeiliaid. Mae Cynllun Prydlesu y Sector Rhentu Preifat, a gyflwynwyd yn Ebrill 2022, lle mae perchnogion eiddo preifat yn cael eu hannog i brydlesu eu heiddo i'r Cyngor yn gyfnewid am sicrwydd rhent a chyllid ychwanegol i wella cyflwr eu heiddo, yn cael ei hyrwyddo a gall helpu i sicrhau llety yn y Sector Rhentu Preifat.

Rydym yn annog ymgeiswyr i edrych yn y Sector Preifat ond rydym wedi gweld nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu yn gostwng ac mae'r rhai sydd ar gael yn amlwg yn rhy ddrud i'n cleientiaid sy'n dod drwy'r system.

Rydym yn tanysgrifio i wasanaeth 'Hometrack' annibynnol. Mae 'Hometrack' yn cael eu data drwy gysylltiad rheolaidd ag asiantiaid gosod ledled y DU. Maent yn darparu cyfartaledd treigl, ac mae'r data isod yn cwmpasu'r cyfnod o 15 mis yn ôl i 3 mis yn ôl. Dengys y data nad oes dim un eiddo o faint penodol wedi cael ei osod yn y ward honno yn y 12 mis hyd at Fawrth 2022.

Mae'r eiddo sydd ar gael i'w rhentu yn rhy ddrud i lawer o bobl. Wrth gyfuno hyn â phwysau costau byw o ran bwyd, tanwydd a theithio, nid oes modd i'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n cael yr hysbysiadau bontio'r bwlch hwn, a beth bynnag mae aelwydydd eraill sy'n gallu gwario canran fwy o'u hincwm ar rent yn gallu cynnig mwy na nhw.

**Y nod fydd sicrhau bod pobl yn cyrraedd tai sefydlog mor gyflym ag sy'n bosibl yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau estynedig.**

## Cymorth

Mae'r gwasanaethau'n gweithio mewn un ar ddeg o ardaloedd lleol y cytunwyd arnynt ledled Sir Gaerfyrddin i sicrhau gwasanaeth cyson i bobl ym mhob ardal. Mae yna ystod o fecanwaith atgyfeirio lleol sy'n anghyson ac ar hyn o bryd mae'n her cael un set ddata gyson o atgyfeiriadau a chanlyniadau ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Fel rhan o ddatblygu ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym byddwn yn dadansoddi'r data am anghenion cymorth sydd ar gael ynghylch pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau digartrefedd, gan ddatblygu ein cynlluniau ar sail lefel anghenion pobl a chynllunio gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl sy'n debygol o gyflwyno yn flynyddol yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod ein hasesiadau anghenion cymorth yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ni ffocysu ein cyngor a'n cymorth ar gyfer pobl i'w helpu nhw i symud ymlaen a chynnal eu llety yn y tymor hir.

Mae darparwyr cymorth wedi nodi bod recriwtio a chadw staff yn dod yn broblem. Prin yw'r bobl sy'n cael cyfweliadau pan fydd cyfleoedd staff cymorth yn cael eu hysbysebu, sy'n arwain at weithlu llai galluog o ran medru darparu cymorth i bobl y mae eu hanghenion yn fwyfwy cymhleth.

**Mae'r gwasanaethau'n gweithio mewn un ar ddeg o ardaloedd lleol y cytunwyd arnynt ledled Sir Gaerfyrddin i sicrhau gwasanaeth cyson i bobl ym mhob ardal.**



## Cymhlethdod a newidiadau bywyd sylweddol

Mae angen gwneud gwelliannau o ran y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n wynebu newid sylweddol, er enghraifft gadael yr ysbyty, carchar, ysgol neu leoliadau gofal. Mae rhannu gwybodaeth yn fan cychwyn pwysig i helpu sefydliadau partner i dargedu cymorth pan fydd anghenion unigolyn yn newid.

Mae ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn dweud eu bod yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ag anghenion cynyddol gymhleth. Mae angen cynllunio a theilwra opsiynau llety a chymorth dros dro a hirdymor i gefnogi'r anghenion hyn. Mae angen gwelliannau i wasanaethau ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Mae angen gwelliannau yn ein dull amlasiantaethol a'n hymrwymiad i rannu gwybodaeth ac atebion ar y cyd i atal pobl rhag syrthio trwy fylchau mewn gwasanaethau, a bydd gwaredu gwaith seilo'n helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fyw'n annibynnol y mae rhai o'n cleientiaid yn eu hwynebu.

Byddwn yn datblygu grŵp Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym Lleol i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn. Bydd y grŵp partneriaeth hwn yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r Cynllun a thynnu sylw at gyfleoedd lle gall partneriaid alinio eu hadnoddau yn well. Bydd darparwyr digartrefedd a chymorth tai o'r trydydd sector yn bartneriaid hanfodol yn ystod y cyfnod pontio i ailgartrefu cyflym.

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno bod lles meddyliol yn broblem sylweddol a bod y pandemig wedi cynyddu maint yr angen ymhellach ac amlygu'r anghydraddoldebau o ran iechyd meddwl.

Mae nifer uchel o atgyfeiriadau at wasanaethau ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Roedd rhanddeiliaid yn teimlo nad yw llochesi presennol yn addas gan mai llety a rennir ydynt ac felly nid ydynt yn briodol i bob menyw a'u teuluoedd ac nid oes unrhyw un yn darparu cymorth 24/7 ar y safle, ac nid oes llochesi i ddynion

**Mae angen mwy o lochesi addas sy'n gallu derbyn pobl ag anghenion uchel yn ogystal â gwell gwasanaethau cymorth hyblyg i bobl sydd dal yn eu cartrefi eu hunain lle bo hynny'n briodol ac yn ddiogel. Mae angen amrywiaeth o gymorth 24/7 a llety gwasgaredig. Mae angen llwybr clir ar gyfer symud ymlaen i lety sefydlog, a gwell opsiynau.**

# Blaenoriaethau Strategol

**Mae tair blaenoriaeth strategol lefel uchel wedi'u sefydlu ar gyfer y Strategaeth hon sy'n deillio o:**

- Casgliadau'r asesiad anghenion a gynhaliwyd i lywio'r strategaeth hon.
- Dyletswyddau sydd arnom o dan y Ddeddf Tai a gyrwyr polisi dilynol.
- Y nod craidd o atal digartrefedd a chefnogi pobl i gael y gallu, annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael a/neu gynnal cartref sefydlog ac addas a'r mecanweithiau a awgrymir ar gyfer cyflawni hyn fel y nodir yng Nghanllawiau Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru.
- Asesiad o flaenoriaethau rhanbarthol a lleol presennol ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi pobl dan y Grant Cymorth Tai.
- Tystiolaeth o effaith y ddarpariaeth ymateb brys a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, y dylid cynnal a chyfnerthu llawer ohoni os bwriedir ateb y galw hirdymor yn effeithiol.

Nodir y camau yn Atodiad A dan bob un o'r blaenoriaethau. Mae nifer o'r rhain yn ôl eu natur yn rhai tymor hir, ac er disgwylir effaith bendant wrth i'r gweithredu fynd yn ei flaen, bydd y manteision llawn yn aml yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu. Mae angen adlewyrchu hyn wrth neilltuo cyllid a monitro effaith. Bydd blaenoriaethau a chamau cefnogi perthnasol hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a fydd yn cael eu paratoi erbyn Medi 2022.

Bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd yn llawn ag ymrwymiadau eraill ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor, er enghraifft ond nid yn unig, gofal a chymorth a gwasanaethau ieuenctid a thrwy hynny ddarparu gwasanaethau cyfannol, cydgysylltiedig ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth. Yn ogystal â sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolyn, bydd hyn yn helpu i sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

## Blaenoriaeth Strategol 1:
Atal Digartrefedd

Yn unol â’r genhadaeth genedlaethol, byddwn yn nodi blaenoriaethau gyda’n partneriaid, ac yn comisiynu ystod briodol o wasanaethau cymorth i sicrhau bod digartrefedd yn y dyfodol yn cael ei atal, neu pan fydd yn digwydd, ei fod yn brin, yn fyrhoedlog a ddim yn digwydd eto.

Mae’r Gwasanaethau Tai â Chymorth yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, teimlo’n ynysig a sefydliadu. Mae atal yn greiddiol i wasanaethau digartrefedd ac yn sylfaenol i’n hymagwedd y mae dychwelyd i fusnes fel arfer gan roi ffocws ar atal digartrefedd a dychwelyd i’r lefelau perfformiad cyn-bandemig a gwella arnynt. Nod ymyrraeth gynnar yw lleihau achosion o sefyllfaoedd yn gwaethygu’n ddiangen er mwyn osgoi argyfyngau, lle mae effaith wedyn ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth.

**Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i gryfhau ein dull o atal. Byddwn yn:**

- 1a) Darparu gwasanaeth di-dor i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref;
- 1b) Datblygu cynnig Hwb Tai ymyrraeth gynnar i bobl sydd mewn perygl o fod yn Ddigartref;
- 1c) Rhoi i bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gadw eu llety;
- 1d) Cryfhau ein dull rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion llety pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn y dyfodol;
- 1e) Sicrhau bod cymorth yn galluogi pobl i gadw eu llety ac atal digartrefedd.
- 1f) Sicrhau bod data mewnol a data gan bartneriaid y system yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i gynllunio gwasanaethau.

## Blaenoriaeth Strategol 2:
Y llety iawn i bobl sy'n ddigartref

Yn sylfaenol i'r Rhaglen Cymorth Tai yw helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig cael mynediad i gyflenwad a llety addas ond asesu a dylanwadu hefyd. Mae galw mawr am gyflenwad tai, yn enwedig unedau un ystafell wely. Byddwn yn ceisio dysgu o'n profiad o ddarparu'r model Tai yn Gyntaf wrth ddatblygu Ailgartrefu Cyflym a dull newydd o gefnogi pobl i ddod o hyd i'r llety cywir gyda'r cymorth cywir o'r cychwyn cyntaf.

**Byddwn yn parhau i arloesi ein cynnig wrth i ni ddysgu mwy am anghenion y defnyddiwr.**

Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn gallu symud i lety sefydlog yn gyflym, gyda'r defnydd o lety dros dro yn gyfyngedig. Byddwn yn:

- 2a) Defnyddio'r data a gasglwn o Asesiadau Anghenion Cymorth i sicrhau lle mae ei angen, ac ein bod yn darparu llety dros dro cywir ac o ansawdd da;
- 2b) Byddwn yn adolygu ein rhaglen adeiladu cyfalaf parhaus ynghyd â rhai ein Partneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod cysondeb rhwng data digartrefedd a'n Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (SHG), a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- 2c) Archwilio opsiynau ar gyfer llety sefydlog a rennir, yn enwedig ar gyfer pobl iau. Ystyried amgylchiadau a dewisiadau'r unigolyn;
- 2d) Ymgysylltu â landlordiaid preifat i ddatblygu opsiynau ar gyfer llety dros dro a sefydlog, gan sicrhau bod cymorth angenrheidiol o ran cyn-denantiaeth a chymorth parhaus ar gael iddynt hwy a'u tenantiaid; a
- 2e) Datblygu Grŵp Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym Lleol i wella trefniadau cynllunio a chomisiynu ar y cyd â phartneriaid allweddol e.e. gwasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd Lleol (LHB).

## Blaenoriaeth Strategol 3:
Y cymorth cywir ar gyfer pobl sy’n ddigartref

Rydym yn gwybod bod amseroldeb ac addasrwydd cymorth yn rhywbeth y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn dibynnu arno. Byddwn yn parhau i arloesi ein cynnig wrth i ni ddysgu mwy am anghenion y defnyddiwr. Rydym yn cydnabod bod angen i ni adeiladu un system gyson o atgyfeirio, asesu a chymorth sy’n syml i’w defnyddio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac asiantaethau darparwyr.

Mae angen i ni sicrhau bod ein holl wasanaethau (mewnol neu wedi’u comisiynu) yn ddwyieithog a bod cynnig dilys, gweithredol ar gyfer cael asesiad a chymorth drwy’r Gymraeg yn rhan annatod o’n holl drefniadau comisiynu.

**Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni weithio gyda phartneriaid i adeiladu’r model o gymorth i bobl ag anghenion cymhleth gan gynnwys pobl sy’n gadael carchar a phobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. I ganolbwyntio ar ddarparu cymorth gwell byddwn yn:**

- 3a) Sicrhau bod asesiad o anghenion cymorth yn cael ei gynnal a bod cymorth perthnasol ac amserol ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf;

- 3b) Datblygu ‘Gwasanaeth Porth Cymorth Tai’ i sicrhau prosesau cyfeirio, asesu a chyflawni cyson;

  - Trwy’r Grŵp Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym Lleol, datblygu Cymorth arbenigol i bobl sy’n profi newid bywyd sylweddol – gadael ysbyty, carchar, ysgol, lleoliadau gofal, a goroeswyr trais domestig a chamdriniaeth

  - Datblygu protocolau ar gyfer cynnal asesiadau ochr yn ochr â phartneriaid sy’n darparu cymorth arbenigol, er mwyn sicrhau bod asesiad mwy cywir a chyson yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai sydd angen y gwasanaethau cymorth hynny ar gyfer argyfyngau ac anghenion cymhleth.

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Roedd ystod o randdeiliaid lleol yn rhan o ddatblygu'r asesiad anghenion hwn.

Roedd rhanddeiliaid yn cynnwys adrannau'r cyngor, partneriaid statudol fel y GIG a'r Gwasanaeth Prawf, ynghyd â chynrychiolwyr o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr Grant Cymorth Tai. Cysylltwyd â rhanddeiliaid trwy weithdai ar-lein, cyfweliadau un i un, a thrwy holiadur.



**Ceir rhestr isod o'r cyfranogwyr wnaeth gymryd rhan:**

- Tai Strategol, CSC
- Cydgysylltydd Digartrefedd Rhanbarthol, CSC
- Atebion Tai, CSC
- Digartrefedd Sir Gaerfyrddin
- Aelodau Fforwm
- Mind Llanelli
- The Wallich
- Gwasanaeth digartrefedd y Gwasanaeth Ieuenctid
- Nacro
- Cymorth Consenws
- Trothwy
- Caredig (Tai Teulu yn flaenorol)
- Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25
- Llamau
- Aelodau bwrdd problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd

**Mae'r themâu allweddol sy'n deillio o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u crynhoi isod:**

- Mae angen y sgiliau a'r ddealltwriaeth ar bobl i gynnal eu tenantiaethau, ar gyfer pobl ifanc dylai hyn ddechrau mewn ysgolion a cholegau.
- Mae llawer o bobl nad oes ganddynt y sgiliau sylfaenol oherwydd y ffordd y cawsant eu magu, gofal maeth, rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, anawsterau dysgu, hyd yn oed rhieni prysur sy'n gweithio ac ati.
- Roedd teimlad y dylid gwthio ffiniau'r Grant Cymorth Tai i ddarparu rhagor o opsiynau gwella sgiliau.
- Mae cael mwy o wybodaeth hygyrch am y gwasanaethau presennol yn bwysig.
- Gallai'r Cyngor ddatblygu siop un stop, caffi, canolfan rhannu gwybodaeth a darparu gweithdai.
- Mae gan waith atal ymyrraeth gynnar gyda phobl ifanc 16-25 oed a NEET wasanaethau mewn ysgolion - mae angen ymagwedd gorfforaethol well at sut mae'r rhain yn cyfrannu at atal digartrefedd.
- Gellid gwella'r gwaith o adnabod, cefnogi ac olrhain pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd posibl ymhellach trwy gysylltu gwybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol.

**Mae cael mwy o wybodaeth hygyrch am y gwasanaethau presennol yn bwysig.**

### Y llety cywir

- Ar brydiau caiff pobl ifanc eu rhoi mewn llety dros dro a bod yn agored i gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.


- Mae'n anodd cael mynediad i lety, yn enwedig i'r bobl mae'r system yn gyfarwydd iawn â nhw ac sy'n dychwelyd nifer o weithiau. Fodd bynnag dywedodd rhanddeiliaid, oherwydd eu bod wedi gorfod gweithio gyda phobl yn ddwys, eu bod wedi cael llwyddiant gyda rhai achosion er ei bod yn ymddangos i ddechrau na fyddent yn gwneud hynny.

- Mae cael y llety iawn yn allweddol, ac mae rhoi llawer o bobl nad oes trefn ar eu bywydau yn yr un llety yn achosi problemau. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth fod pobl eraill yn rhwystr o ran cyfle iddo wella ei lesiant, yn enwedig drwy bwysau gan gyfoedion.

- Nid yw Tai yn Gyntaf yn gweithio mor effeithiol yn Sir Gaerfyrddin ag y mae mewn siroedd cyfagos. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod teimlad nad oedd dull Sir Gaerfyrddin yn dilyn y model mor agos, a hefyd fod diffyg llety ar gyfer Tai yn Gyntaf.

- Her allweddol yw'r diffyg llety ar gyfer Tai yn Gyntaf ac ar gyfer symud ymlaen o lety dros dro.

- Mae'n anodd iawn cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat yn enwedig yng Nghaerfyrddin gan fod diffyg o £200 rhwng rhenti a'r Lwfans Tai Lleol.



### Y cymorth cywir

- Dylai cymorth gael ei addasu, ei gynyddu, a'i leihau yn unol â'r angen
- Mae gan y rhan fwyaf o bobl anghenion lluosog
- Mae gan bobl sydd ag anghenion lluosog nifer o asiantaethau yn eu cefnogi. Mae rhai hyd yn oed yn stopio pan fyddant yn gwybod bod asiantaeth arall yn gysylltiedig gan fod eu rolau'n gorgyffwrdd.
- Mae angen asesiadau da o'r dechrau, disgrifiwyd y prosesau atgyfeirio cyfredol i wasanaethau Grant Cymorth Tai fel 'clunky' a'i fod yn cynnwys ticio blychau anghenion.
- Mae angen canolfan asesu symlach neu Borth ar gyfer pob cais am Grant Cymorth Tai ac atgyfeiriadau/cyflwyniadau digartrefedd.
- Pan fydd pobl yn cynnal asesiadau mae angen iddynt ystyried byw bywyd go iawn
    - Sgiliau bywyd
    - Modelau rôl da
    - Sgiliau coginio sylfaenol
    - Cyllidebu a thalu cyfleustodau
    - Manteision beth ydych yn ei fwyta, ffres neu wedi rhewi
    - Hylendid sylfaenol
    - Sut i wneud y gwely
    - Sut i ddefnyddio peiriant golchi
    - Cymorth i hawlio credyd cynhwysol a chronfeydd caledi ariannol
- Mae yna ddisgwyliad gor-fiwrocrataidd bod pawb yn cael asesiad, asesiad risg a chynllun cymorth, ond weithiau dim ond cael eu cyfeirio sydd ei angen ar bobl.
- Mae angen gwella cydweithio rhwng yr Adran Tai a'r Gwasanaeth Prawf.
- Mae angen cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau y GIG a gwelliant o ran rhannu gwybodaeth ganddynt i wasanaethau cymorth a ariennir gan y Grant Cymorth Tai.

### Iechyd Meddwl

- Roedd argyfwng iechyd meddwl yn bodoli eisoes, ac fe'i gwnaed yn waeth gan y pandemig. Mae graddfa a chymhlethdod heriau iechyd meddwl wedi cynyddu ac maent yn ddyfnach.

- Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno bod llesiant meddyliol yn broblem sylweddol, a bod angen gwell ymatebion ar y cyd gan bartneriaid statudol a'r trydydd sector.

### Pobl ifanc

- Gall cael gafael ar y gefnogaeth gywir i bobl ifanc sy'n trosglwyddo i fod yn oedolion fod yn heriol.

- Yn achos pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, mae angen gwell ymagwedd rhianta corfforaethol arnynt o ran cynllunio ar gyfer eu hanghenion llety yn y dyfodol.

- Mae lefelau angen cyffredinol ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu ac wedi dod yn fwy cymhleth.



### Anghenion Cymhleth

- Mae angen gwella mynediad i lety tymor byr ar gyfer materion cymhleth a bydd angen cynllunio gwell ar gyfer opsiynau llety tymor hwy.
- Gan fod iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cyd-ddigwydd mor aml, dylid tybio hynny wrth gomisiynu gwasanaethau a threfniadau partneriaeth ehangach.
- Mynegodd rhanddeiliaid y GIG awydd am well hyfforddiant yn y maes hwn.
- Mae angen cael dull amlasiantaeth wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n 'syrthio trwy'r bylchau' yn rheolaidd mewn gwasanaethau.

### Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Angen datblygu gwasanaethau lloches ar gyfer anghenion cymhleth.
- Nid yw dyluniad rhai llochesi'n addas. Er enghraifft, mae rhywfaint o'r llety a rennir na fyddai'n briodol i fenywod â phlant gwrywaidd hŷn. Nid oes cymorth 24/7 yn achos yr un ohonynt, mae cymorth ar alwad ond dim ar y safle.
- Mae angen mwy o opsiynau symud ymlaen.
- Mae angen gwasanaethau rhyw-benodol oherwydd trawma teuluol ac i'r rhai sy'n oroeswyr, a hefyd mae angen gwasanaethau ar gyfer dynion sydd wedi profi trawma

**Mae lefelau angen cyffredinol ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu ac wedi dod yn fwy cymhleth.**

# Asesiadau Effaith

## Proses Asesiad Effaith

Mae'r gwasanaeth tai wedi cynnal ymarfer asesu effaith cynhwysfawr i asesu effaith y 3 maes blaenoriaeth strategol. Cafodd yr asesiadau eu cynnal gan aelodau o'r gwasanaeth Grant Cymorth Tai, gan ddefnyddio templedi gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu Asesiad Effaith integredig sy'n ystyried yr effaith y bydd prosiect neu gynnig penodol yn ei chael ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ofynion deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru). Cynhaliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) gan ddefnyddio templed gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn edrych ar effaith y blaenoriaethau ar hawliau plant a sut gall y strategaeth gefnogi a hyrwyddo'r hawliau hyn.



## Canfyddiadau allweddol

### Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Roedd yr asesiad effaith yn ystyried tri maes blaenoriaeth strategol strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai yn erbyn pob un o’r nodweddion gwarchodedig a oedd yn rhan o’r Ddeddf Cydraddoldeb. Ym mhob achos, roedd yr asesiad yn nodi y byddai’r blaenoriaethau’n cael effaith gadarnhaol ar unigolion â’r nodweddion hyn, yn enwedig unigolion sy’n cael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd eu hoedran neu eu cyfeiriadedd rhywiol, lle mae gwasanaethau penodol yn cael eu darparu ar hyn o bryd i ddiwallu eu hanghenion.

Mae argaeledd llety addas yn faes lle gall gweithredu’r strategaeth hefyd ddod â rhai gwelliannau sylweddol. Mae’r asesiad o anghenion wedi amlygu bod llety yn gyffredinol yn dal i fod yn flaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin a bod darparu mwy o lety wedi cael ei nodi’n flaenoriaeth strategol. Trwy waith partneriaeth cadarnhaol, bydd Sir Gaerfyrddin yn gweithio i ddarparu mwy o atebion tai, a fydd yn cynnwys opsiynau i unigolion ag anabledd, gan roi bod i nifer o effeithiau cadarnhaol. Roedd yr asesiad effaith yn ystyried a allai preswylwyr gael eu heffeithio’n anuniongyrchol oherwydd hil, gan fod rhai preswylwyr o wahanol hiliau hefyd â gofynion diwylliannol neu iaith gwahanol, a allai fod yn rhwystr rhag cael mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth Tai yn parhau i wneud darpariaeth i fynd i’r afael â’r materion hyn lle bynnag y bo modd, trwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ac argaeledd gwybodaeth mewn ieithoedd neu fformatau amgen. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy gydol oes y strategaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n addasu i unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth a allai effeithio ar grŵp penodol.

### Asesiadau Effaith Cymraeg
### Asesiad Iaith

Roedd yr asesiad yn ystyried a fyddai blaenoriaethau strategol a darpariaeth strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai yn effeithio ar allu unigolyn i gael mynediad at wasanaethau a’u defnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth yr asesiad i’r casgliad bod darpariaeth ddigonol ar waith ar hyn o bryd ar draws yr awdurdod lleol a’i bartneriaid, er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith ac ni fydd gweithredu’r strategaeth hon yn cael effaith negyddol ar Fesur y Gymraeg.

### Asesiad Effaith Hawliau’r Plentyn

**Bydd y strategaeth Rhaglen Cymorth Tai yn rhoi bod i sawl effaith gadarnhaol i blant:**

- Llai o amser mewn llety dros dro.
- Opsiynau llety gwell i aelwydydd.
- Codi ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael i aelwydydd sy’n ei chael hi’n anodd.
- Gwell cymorth i aelwydydd.

Er nad yw’r rhaglen Cymorth Tai yn cefnogi plant yn uniongyrchol, bydd y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon yn arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol ar aelwydydd, a fydd yn gwella profiadau plant yr aelwydydd hynny.

# Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

## Gweithio gyda Phartneriaid

Fel mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn crynhoi yn ei adroddiad Tackling Homelessness, A Rapid Evidence Review 2015:

**'Dengys y dystiolaeth fod digartrefedd yn broblem gymhleth. Yn aml mae nifer o resymau drosto sy'n rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n amrywio ar lefel yr unigolyn ac y mae angen ymgysylltu â nifer o feysydd polisi yn eu cylch".**

Mae cysylltiad annatod rhwng y prif achosion sy'n arwain at ddigartrefedd a/neu anghenion amlwg o ran cymorth tai ymysg unigolion ac aelwydydd agored i niwed. Felly, yn y bôn, mae gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydlynu, cynllunio ar y cyd, comisiynu a darparu gwasanaethau (gan adrannau mewnol awdurdodau lleol, partneriaid statudol a'r sector tai).

Yn ymarferol, mae'r ymagwedd hon o gydweithio ar waith yn Sir Gaerfyrddin drwy Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSCG) Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cwmpasu ardaloedd Byrddau Iechyd Prifysgol Powys a Hywel Dda. Er nad yw'r Cyngor Sir yn atebol yn uniongyrchol i'r RHSCG, mae'r strwythurau rhanbarthol yn darparu fforwm ar gyfer rhannu ymarfer, gan ledaenu arfer effeithiol profedig a mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau cyffredin. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ar y cyd ar ddatblygu strategaethau Rhaglen Cymorth Tai lleol ar draws y rhanbarth a bydd y RHSCG hefyd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol sy'n deillio o gynlluniau lleol.

Yn yr un modd, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu mecanwaith amlwg ar gyfer ymgysylltu ag iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth yn y Sir. Mae'n darparu fforwm delfrydol ar gyfer cydweithio, er enghraifft wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant pobl trwy ddarparu tai priodol a chymorth cysylltiedig. Mae cryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd mewn ymateb i'r Papur Gwyn diweddar 'Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth' (2021) yn gyfle i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach, gan sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal yn cyd-fynd â chymorth tai ac yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghamau cefnogi'r blaenoriaethau strategol a nodwyd.

Bydd y cysylltiadau presennol hefyd yn parhau gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Strategol a Chyflenwi VAWDASV, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a dulliau cymorth yn cyd-fynd yn ogystal â gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

## Ffynonellau Ariannu

Bydd rhaid buddsoddi'n sylweddol i weithredu'r Strategaeth hon a chyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodwyd

**Daw'r buddsoddiad hwn o amryw ffynonellau yn cynnwys:**

- Y dyraniad Grant Cymorth Tai ar gyfer y sir, a oedd yn dod i £8.8m yn 2021/22. Mae dyraniadau dangosol o'r un swm ar waith tan ddiwedd mis Mawrth 2025.
- Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor
- Y Grant Tai Cymdeithasol
- Cyfnod 1 a 2 y Gronfa Cadernid Economaidd a'r Gronfa Galedi, ill dau wedi'u sefydlu yn sgil pandemig Covid-19.

Bydd dyrannu adnoddau i gefnogi camau gweithredu penodol yn cael eu cwblhau yn y cam gweithredu ac, ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Tai, yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai.

## Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso

Mae'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai wedi'i fframio dros gyfnod o 4 blynedd a bydd y broses o weithredu'n destun adolygiad parhaus, gan gynnwys adolygiad canol pwynt ffurfiol ar ôl 2 flynedd.

Bydd y gwaith o weithredu'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Grant Cymorth Tai a CCG, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen Grant Cymorth Tai ac adnoddau cysylltiedig o fewn y cyd-destun tai a digartrefedd ehangach. Bydd y Bwrdd yn monitro cyflawniad y blaenoriaethau ac yn derbyn adroddiadau ar ganlyniadau ac effaith. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol a'r Cyfarwyddwr Addysg a Phlant

Mae rhyngweithio rheolaidd hefyd yn digwydd gyda Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Grant Cymorth Tai, lle cynrychiolir pob awdurdod lleol ledled Cymru. Mae'r Rhwydwaith Gwybodaeth am Dai yn fforwm pwysig arall, sy'n hyrwyddo ymagweddau Cymru gyfan at ddigartrefedd ac yn galluogi rhannu profiadau a gwybodaeth yn ogystal â threfnu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff perthnasol.

# Atodiad 1

## Mae polisi ac arfer tai a digartrefedd wedi parhau i esblygu yn y cyfnod ers i'r Ddeddf Tai ddod i rym. Mae hyn wedi cynnwys:

- Cyhoeddi yn 2016 **'Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth'** – sef yn ei hanfod llwybr i annibyniaeth economaidd i bobl ifanc drwy gyngor ac opsiynau tai ac atal digartrefedd.
- Cyhoeddi yn 2016 gan Barnardo's y **Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr** Gofal, wedi'i anelu at gefnogi cynllunio effeithiol a darparu tai a chymorth i bobl ifanc ac ymadawyr gofal.
- Cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ymagwedd **'Tai yn Gyntaf'**, sy'n canolbwyntio ar adfer, tuag at ddiweddu digartrefedd, sy'n canolbwyntio ar symud pobl ddigartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol pan fo angen.
- Cyfres o ymgyrchoedd ffocysedig gan gynnwys **'End Youth Homelessness Cymru 2018'**, sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned LGBT+, gan gefnogi'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl a lleihau'r cysylltiadau rhwng digartrefedd a datgysylltiad addysgol a'r system ofal.
- Buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig **£10m yn 2019-20 i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc** drwy wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu gwasanaethau newydd; a lansio cronfa arloesi £4.8m yn 2019-20 sy'n cefnogi 26 o brosiectau ar draws Cymru yn ymwneud â dulliau newydd ac arloesol i gymorth tai.
- Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, **'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: Cynllun gweithredu lefel uchel: 2021-2026'**, gan adeiladu ar ganllawiau cynllunio Cam 2 ac wedi'i gynhyrchu mewn ymateb i waith cynharach a wnaed gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020.
- Gofyniad ar Awdurdodau Lleol i gwblhau **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** erbyn diwedd Medi 2022.
- Pwyslais o'r newydd, mewn ymateb i bandemig Covid-19 ar leihau digartrefedd ar y stryd drwy ddarparu atebion llety dros dro, gan arwain at gyhoeddi **canllawiau cynllunio Cam 2** gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynllunio i sicrhau bod pawb sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro yn cael eu cefnogi i lety tymor hir, a bod y pwyslais yn parhau i fod ar atal a chadw digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog nad yw'n digwydd eto.
- **Canllawiau cynllunio Cam 3 (2020)** sy'n cefnogi dyluniad a datblygiad gwasanaethau cydnerth, cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**Ymrwymiadau strategol penodol o fewn Rhaglen Lywodraethu (2021) Llafur Cymru, gan gynnwys:**

1. Diwygio'n sylfaenol y gwasanaethau digartrefedd i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym.
2. Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu dros y cyfnod o 2021 i 2026.
3. Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
4. Datblygu cynllun cenedlaethol yn cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
5. Sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ac yn cynnig unrhyw gymorth priodol.

**Ymrwymiadau pellach o fewn Cytundeb Cydweithredu Llafur/Plaid Cymru (Tachwedd 2021), gan gynnwys:**

1. Cymryd camau radical ar unwaith i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthiant
2. Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
3. Cyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion am hawl i dai priodol, y rôl gallai system o renti teg (rheolaeth rhent) ei chael o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy.
4. Rhoi diwedd ar ddigartrefedd drwy ddiwygio cyfraith tai, gan weithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o ddiogelwch i rentwyr ac i weithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd.

Bydd newidiadau sylweddol pellach yn cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2022 pan fydd Llywodraeth Cymru yn deddfu darpariaethau **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**. Mae newidiadau allweddol, sy'n cryfhau hawliau a diogelwch tenantiaid yn cynnwys:

- Amnewid tenantiaethau a thrwyddedau cyfredol, gan gynnwys tenantiaethau byrddaliad sicr, tenantiaethau sicr a diogel gyda chontractau meddiannaeth diogel (a roddir yn gyffredinol gan landlordiaid cymunedol – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) a chontractau meddiannaeth safonol (a roddir yn gyffredinol gan landlordiaid preifat).

- Dyletswyddau cynyddol ar landlordiaid i nodi dyletswyddau priodol y landlord a deiliad y contract (tenant).

- Y cyfnod rhybudd lleiaf ar gyfer terfynu contract lle nad oes bai yw 6 mis ac mae'n rhaid bod o leiaf 6 mis wedi mynd ers dechrau'r contract cyn bod hysbysiad o'r fath yn cael ei gyflwyno.

- Mwy o ddiogelwch i ddeiliaid contractau rhag cymalau terfynu, y gall landlordiaid ond eu rhoi os cydymffurfir ag amodau penodol.

- Gofyniad bod yr holl eiddo rhent yn addas i bobl fyw ynddo a bod landlordiaid yn cadw strwythur ac ochr allanol yr eiddo mewn cyflwr da.

- Diogelu'r tenantiaid sydd ar ôl sy'n destun contract ar y cyd lle mae un deiliad contract yn gadael yr eiddo.

- Gwell hawliau olynu contract ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys rhai gofalwyr.

**Bydd gan y newidiadau hyn oblygiadau amlwg i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd â dyletswyddau i atal a lleihau digartrefedd, o ran rhoi mwy o ddiogelwch i denantiaid neu ddeiliaid contractau presennol rhag y risg o fod yn ddigartref, ond hefyd o bosibl ar argaeledd eiddo addas mewn ardal a landlordiaid preifat sy'n barod i rentu.**

# Atodiad A: Cynllun Gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 1 – Atal Digartrefedd

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 1a) Darparu gwasanaeth di-dor i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; | Datblygu cynllun adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Hwb Tai i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at lety sefydlog. | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai | Asesiadau Anghenion Cymorth wedi'u cynnal ar y pwynt cyswllt cyntaf i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a dargedir cyn gynted ag sy'n bosibl.<br><br>Gwella canlyniadau Atal Digartrefedd a thorri'r cylch o bobl yn cyflwyno'n Ddigartref dro ar ôl tro.<br><br>Casglu data Asesiad Anghenion i lywio Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a chomisiynu a darparu gwasanaeth yn y dyfodol. |
| 1b) Datblygu cynnig Hwb Tai ymyrraeth gynnar i bobl sydd mewn perygl o fod yn Ddigartref; | Treialu darparu Gwasanaeth Digartrefedd rheng flaen a Chymorth Cyn-denantiaeth yn 3 Hwb y Cyngor yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman. | Ebrill 2022 - 23 | Rheolwr Hwb Tai | Cynyddu'r cynnig i bobl mewn perygl o fod yn Ddigartref.<br><br>Cynyddu'r opsiynau i Bobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu dros y ffôn neu'r e-bost.<br><br>Gwerthuso'r cynllun Peilot i benderfynu ar yr angen am ddarpariaeth hirdymor, a'r effaith ar atal digartrefedd. |

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 1c) Rhoi i bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gadw eu llety. | Adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i gefnogi darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Gweithredu meincnod hyfforddiant gofynnol ar gyfer staff cymorth yn unol â chanllawiau a chytundeb rhanbarthol Llywodraeth Cymru. | Rhagfyr 2022 | RHSCG/ RDC Arweinydd Grant Cymorth Tai | Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y cymorth i bobl sy'n derbyn gwasanaeth.<br><br>Gall mwy o hyfforddiant hefyd gyfrannu at ddatblygu a chadw staff yn y sector. |
| | Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r tîm cyn-denantiaeth i ddarparu hyfforddiant i unigolion sy'n mynd i mewn i'r Sector Rhentu Preifat. | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai/Arweinydd Cyn-denantiaeth/ Arweinydd Datblygu Grant Cymorth Tai | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu cynnal llety sefydlog<br><br>Cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn y cynnig o lety sefydlog yn y Sector Rhentu Preifat.<br><br>Gwella sgiliau cynaliadwyedd, a gostyngiad yn nifer yr achosion o droi rhywun allan. |
| | Darparu hyfforddiant digartrefedd sylfaenol a chyngor cyn-denantiaeth i Ysgolion Cyfun. | Parhaus | Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid/ Arweinydd Cymorth Cyn-denantiaeth | Bydd gan bobl ifanc ddealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a ddaw yn sgil rheoli tenantiaeth gan gynnwys cyllidebu.<br><br>Bydd pobl ifanc yn cael gwybod am y problemau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd ac am ble i geisio cymorth.<br><br>Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cyflwyno'n ddigartref. |

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 1d) Cryfhau ein dull rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion llety pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn y dyfodol | Sicrhau gwell dull rhianta corfforaethol o ran datblygu sgiliau, gan gynnwys datblygu'r gwasanaeth cymorth ieuenctid. | Medi 2022 | Arweinydd Datblygiad | Bydd pobl ifanc mewn fflatiau hyfforddi a llety a rennir yn derbyn cymorth hyblyg gan y gwasanaeth ieuenctid.<br><br>Bydd pobl ifanc yn cael cymorth i fod yn annibynnol. Bydd defnyddio darparwr cymorth mewnol yn sicrhau cydweithio ag asiantaethau allweddol i gael canlyniadau gwell. |
| | Adolygu gwaith partneriaeth gydag Ymyrraeth Gynnar ac Atal gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid ac ysgolion. | Rhagfyr 2022 | Arweinydd Grant Cymorth Tai/ Arweinydd y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid | Ymagwedd a dargedwyd at bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Gwelir canlyniadau drwy ddata Amcan Iechyd a Llesiant 12. |
| 1e) Sicrhau bod cymorth yn galluogi pobl i gadw eu llety ac atal digartrefedd. | Cyflwyno'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai | Cymeradwyaeth gorfforaethol a chyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cwblhau Asesiad Mapio Anghenion Cymorth o bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd rheng flaen.<br><br>Parhau i gefnogi mewn modd priodol y bobl sy'n dal i gysgu ar y stryd, sydd mewn llety dros dro, a'r rhai a symudodd yn ddiweddar i lety sefydlog.<br><br>Sicrhau bod digon o'r cymorth cywir ar gael i gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal llety sefydlog. |
| | Adolygu comisiynu cymorth ar lefel isel. | Ionawr 2023 | Rheolwr Hwb Tai/Grant Cymorth Tai | |
| | Cefnogi agenda Rhentu Doeth Cymru yn enwedig effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. | Parhaus | Arweinydd Datblygu/Grant Cymorth Tai | |

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 1e) Sicrhau bod cymorth yn galluogi pobl i gadw eu llety ac atal digartrefedd. | Gwerthusiad llawn o gymorth hyblyg i sicrhau bod cefnogaeth yn berthnasol i anghenion newidiol ac yn bodloni nodau'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. | Ionawr 2023 | Rheolwr Hwb Tai/Arweinydd Datblygu/Grant Cymorth Tai | Mae cymorth yn briodol i anghenion newidiol ac mae'n ddigon hyblyg i ddarparu cymorth effeithiol i'r rhai sydd ei angen i atal digartrefedd. |
| 1f) Sicrhau bod data mewnol a data gan bartneriaid y system yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio gwasanaethau. | Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi gweithgarwch ynghylch rhannu data'n well. | Ionawr 2023 | RHSCG/ RDC Arweinydd Grant Cymorth Tai | Sicrhau bod data cynhwysfawr ar gael a gellir ei ddefnyddio i gynllunio gwasanaethau'r dyfodol yn effeithiol. |

## Blaenoriaeth Strategol 2 – Y llety cywir i bobl sy’n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni’r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy’n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 2a) Defnyddio’r data a gasglwn o Asesiadau Anghenion Cymorth i sicrhau, lle bo angen hynny, ein bod yn darparu’r llety dros dro cywir a’i fod o ansawdd da | Adolygu lleoliadau llety dros dro presennol i benderfynu a yw ymgeiswyr yn addas i gael cynnig llety sefydlog | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai/Arweinydd Datblygu/Grant Cymorth Tai | Sicrhau bod cyfle i bobl gael llety sefydlog cyn gynted â phosib - gyda’r gefnogaeth angenrheidiol i gynnal eu tenantiaethau. |
| | Parhau â deialog agored gyda phartneriaid RSL, adolygu’r Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol presennol ac edrych ar gymorth gyda Llety Dros Dro. | Mawrth 2023 | Rheolwr Hwb Tai | Sicrhau bod y polisi dyrannu yn bodloni nodau’r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a bod llety dros dro o ansawdd da yn y tymor byr ar gael i’r rhai sydd ei angen. |
| 2b) Byddwn yn adolygu ein rhaglen adeiladu cyfalaf barhaus ynghyd â rhai ein Partneriaid RSL | Adolygu’r Rhaglen Adfywio a Datblygu Tai Pedair Blynedd i gefnogi’r gwaith o ddarparu dros 2,000 o gartrefi i’w rhentu a’u gwerthu.<br><br>Datblygu cynllun ar gyfer bylchau mewn llety a nodwyd yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai/ Gwasanaethau Buddsoddiad a Chymorth | Sicrhau bod cysondeb rhwng data digartrefedd a’n Hasesiad o’r Farchnad Tai Lleol (LHMA), Rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol (SHG), a Chynlluniau Datblygu Lleol, a bod amcanion y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cael eu cyflawni. |
| 2c) Ymchwilio i opsiynau ar gyfer llety sefydlog a rennir, yn enwedig ar gyfer pobl iau. Ystyried amgylchiadau a dewisiadau’r unigolyn; | Datblygu dull rhianta corfforaethol cadarn o weithio ar y cyd a chomisiynu llety ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc 16-18 sydd â phrofiad o ofal. | Parhaus | Arweinydd Grant Cymorth Tai Y Gwasanaethau Digartrefedd | Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da ar gael yn y Sector Rhentu Preifat. Gwell diogelwch i denantiaid a fydd yn cael cynnig termau isafswm. |

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni’r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy’n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 2d) Ymgysylltu â landlordiaid preifat i ddatblygu opsiynau ar gyfer llety dros dro a sefydlog, gan sicrhau bod y cymorth cyn-denantiaeth a pharhaus angenrheidiol ar gael iddynt a’u tenantiaid | Datblygu ymhellach Gynllun Prydlesu y Sector Rhentu Preifat | Mawrth 2023 | Y Gwasanaeth Cyngor Cyn-denantiaeth / Hwb Tai | Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da ar gael yn y Sector Rhentu Preifat. Gwell diogelwch i denantiaid a fydd yn cael cynnig termau isafswm. |
| | Adolygu a datblygu ymhellach yr opsiynau sydd ar gael i ddechrau ailddefnyddio tai gwag. Lle bo'n briodol, annog y defnydd o'r cynllun Gosod Syml / Prydlesu yn y Sector Rhentu Preifat. | Mawrth 2023 | Gwasanaethau Gwella Cartrefi | Mwy o eiddo ar gael i'w rhentu. |
| 2e) Datblygu Grŵp Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym Lleol i wella trefniadau cynllunio a chomisiynu ar y cyd gyda phartneriaid allweddol e.e. gwasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Prawf a’r Bwrdd Tai Lleol (LHB). | Adolygu rhaglen gymorth model Tai yn Gyntaf | Medi 2022 | Arweinydd Datblygu/ Grant Cymorth Tai / Gwasanaethau Digartrefedd | Argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym. |
| | Datblygu'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai | Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi'i ddatblygu. |
| 3a) Sicrhau bod asesiad o anghenion cymorth yn cael ei gynnal a bod cymorth perthnasol ac amserol ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf | Gwella marchnata a hyrwyddo gwasanaethau cymorth a system atgyfeirio trwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. | Ionawr 2022 | Arweinydd Datblygu/Grant Cymorth Tai | Bydd rhoi cyhoeddusrwydd i argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau cymorth yn annog unigolion a gwasanaethau eraill i gyfeirio yn gynharach, gan roi ffocws ar atal. |
| | Cynyddu capasiti'r cymorth mewn llety Gwely a Brecwast. | Mawrth 2022 | Arweinydd Systemau / Grant Cymorth Tai | Bydd unigolion sydd mewn Gwely a Brecwast yn gallu cael gafael ar gymorth pan fydd ei angen arnynt, nid rhwng 9-5 yn unig. |

## Blaenoriaeth Strategol 3 – Y cymorth cywir ar gyfer pobl sy'n ddigartref

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 3b) Datblygu 'Gwasanaeth Porth Cymorth Tai' i sicrhau prosesau cyfeirio, asesu a chyflawni cyson; | Adolygu prosesau cyfeirio ac asesu<br><br>Adolygu un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai. | Mawrth 2023 | Rheolwr Hwb Tai/Grant Cymorth Tai | Bydd pobl yn derbyn y lefel gywir o gymorth i ddiwallu eu hanghenion, a chaiff hynny ei adolygu'n rheolaidd i'w galluogi i gadw llety sefydlog. |
| 3b) Trwy'r Grŵp Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym Lleol, datblygu Cymorth arbenigol i bobl sy'n profi newid bywyd sylweddol – gadael ysbyty, carchar, ysgol, lleoliadau gofal | Cyd-ddylunio gwasanaethau comisiynu gyda defnyddwyr gwasanaeth, adrannau'r Cyngor, a phartneriaid Iechyd, Prawf ac Addysg. | Mawrth 2023 | Rheolwr Hwb Tai/Grant Cymorth Tai | Bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio gyda mewnbwn amlasiantaeth a defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu'r gefnogaeth gywir. |

| Blaenoriaeth | Angen cymryd camau i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni / Erbyn pryd | Y sawl sy'n arwain | Canlyniadau / Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 3b) Datblygu protocolau ar gyfer cynnal asesiadau ochr yn ochr â phartneriaid sy'n darparu cymorth arbenigol, er mwyn sicrhau bod asesiad mwy cywir a chyson yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai sydd angen y gwasanaethau cymorth hynny ar gyfer argyfyngau ac anghenion cymhleth. | Datblygu panel cynhwysiant rhagweithiol ac ymatebol ar ffurf 'Porth' o lety â chymorth a darparwyr hostel ynghyd ag ymarferwyr camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, i leihau'r risg o droi pobl allan neu allgáu pobl rhag wasanaethau yn achos pobl ag anghenion cymhleth sy'n cyd-fynd â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. | Medi 2022 | Rheolwr Hwb Tai | Bydd llai o bobl sydd ag anghenion cymhleth yn cael eu troi allan o Lety Dros Dro. Bydd hyn yn lleihau nifer y bobl sy'n 'fwriadol ddigartref' a nifer y ceisiadau sy'n cael eu hailadrodd o blith y grŵp hwn. |
| | Parhau gyda chynlluniau i wella gwasanaethau ar gyfer VAWDASV gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth.<br><br>Datblygu perthynas waith agosach gyda'n partneriaid Cam-drin Domestig ac ymgysylltu'n llawn â'r grŵp cyflawni VAWDASV i ddatblygu cynllun hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen. | Gorffennaf 2022 | Arweinydd Grant Cymorth Tai | Nodi'r holl wasanaethau sydd ar gael i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig er mwyn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael iddynt o ran aros yn eu cartref yn ddiogel.<br><br>Cynyddu hyder wrth ddelio â chleientiaid sy'n dioddef cam-drin domestig a chodi ymwybyddiaeth o'r holl wasanaethau sydd ar gael. |

| Priority | Action required to deliver the priority | Timescales / By when | Lead Person | Outcome / Outputs |
|---|---|---|---|---|
| 3b) Datblygu protocolau ar gyfer cynnal asesiadau ochr yn ochr â phartneriaid sy'n darparu cymorth arbenigol, er mwyn sicrhau bod asesiad mwy cywir a chyson yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai sydd angen y gwasanaethau cymorth hynny ar gyfer argyfyngau ac anghenion cymhleth. | Adolygu cyfleoedd gwaith partneriaeth i wella gwaith strategol gyda phartneriaid y system, yn enwedig Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ynghylch cyllid ar gyfer anghenion cymhleth a lle gall y Grant Cymorth Tai ategu hyn.<br><br>Adolygu gwaith amlasiantaeth a threfniadau cynadledda achosion i gefnogi darparwyr Grant Cymorth Tai sy'n rhoi cymorth cyfannol. | Mawrth 2023 | Rheolwr Hwb Tai/Arweinydd Datblygu/Grant Cymorth Tai | Bydd gweithio ar y cyd yn gwella canlyniadau i unigolion ag anghenion cymhleth sy'n aml yn cael eu trosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall. |
| | Parhau i ddarparu gwasanaeth galw heibio sy'n rhoi cymorth mewn Llety Dros Dro gan gynnwys Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed. Parhau i gyd-leoli gwasanaeth cymorth CTAP o fewn Gwely a Brecwast | Yn parhau tra'n defnyddio Gwely a Brecwast fel llety dros dro | Arweinydd Grant Cymorth Tai/ Gwasanaethau Digartrefedd | Unigolion yn gallu cael mynediad at gymorth lluosog o fewn y Llety Dros Dro, gwell canlyniadau a gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell , Caerfyrddin, SA31 1JP**

**www.sirgar.llyw.cymru**

**Ffôn: 01267 234567**